Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Anghynaliadwy: dyled o ganlyniad i gostau byw cynyddol

Mai 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCydraddoldeb**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Anghynaliadwy: dyled o ganlyniad i gostau byw cynyddol

Mai 2023

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

---

## Aelodau'r Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru



**Jane Dodds AS**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Altaf Hussain AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Sarah Murphy AS**
Llafur Cymru



**Ken Skates AS**
Llafur Cymru



**Sioned Williams AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ........ **5**

**Argymhellion** ........ **7**

**1. Cefndir** ........ **10**

Casglu tystiolaeth ........ 10

**2. Effaith costau byw cynyddol** ........ **11**

Effaith ar grwpiau penodol ........ 14

Ein barn ni ........ 15

Cymorth costau byw gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ........ 16

Dull Llywodraeth Cymru ........ 17

Y Gronfa Cymorth Dewisol ........ 18

Ein barn ni ........ 20

System fudd-daliadau Cymru ........ 22

Astudiaeth ddichonoldeb Policy in Practice ........ 24

Ein barn ni ........ 25

**3. Prisiau bwyd a thanwydd cynyddol** ........ **26**

Prisiau bwyd cynyddol ........ 26

Ein barn ni ........ 29

Prisiau tanwydd ac ynni cynyddol ........ 29

Effeithlonrwydd ynni a'r Rhaglen Cartrefi Clyd ........ 31

Ein barn ni ........ 32

Mesuryddion rhagdalu ........ 33

Ein barn ni ........ 35

**4. Dyled a chostau byw cynyddol** ........ **37**

Dyled ........ 37

Y Gronfa Gynghori Sengl ........ 37

Ein barn ni ........ 38

Dyled sy'n ddyledus i gyrff cyhoeddus ........ 39

Ein barn ni ........ 40

Credyd fforddiadwy ........ 40

Ein barn ni ........ 42

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar. ........ 43**

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ........ 44**

**Atodiad 3: Cefnogaeth gan y Llywodraeth gyda chostau byw .... 45**

**Atodiad 4: Cynnydd gydag argymhellion blaenorol ........ 47**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae’r argyfwng costau byw yn cael effaith sylweddol a niweidiol ar iechyd a chyfoeth ein cenedl. Mae prisiau bwyd, gwres a hanfodion sylfaenol eraill wedi codi’n aruthrol; mae'r rhain yn effeithio'n anghymesur ar y bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Mae llywodraethau wedi bod yn ceisio dal i fyny yn eu hymateb i raddfa'r heriau hyn. Dim ond lleihau’r ergyd y mae’r ymyriadau wedi’i wneud. Mae dinasyddion sy'n dibynnu ar fudd-daliadau i ychwanegu at gyflogau annigonol wedi'u gadael yn ddiamddiffyn yn wyneb y cynnydd di-baid mewn prisiau ynni sydd yn ei dro wedi codi prisiau bwyd. Mae gormod o aelwydydd yn wynebu caledi annerbyniol y tu hwnt i'w rheolaeth.

Mae’r pwerau pwysicaf ar gyfer polisïau economaidd: treth a gwariant, a’r system fudd-daliadau, o dan reolaeth Llywodraeth y DU yn Llundain. Mae cwestiynau ynghylch pam mae prisiau’n codi’n gynt yn y DU nag mewn mannau eraill yn Ewrop, a pham mae cyflogau wedi gostwng mewn termau real ers dros ddegawd, yn faterion i Lywodraeth y DU roi sylw iddynt. Mater iddynt hwy hefyd yw’r cyfrifoldeb am fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau amlwg sy'n bresennol yn economi'r DU yn fwy eang.

Fodd bynnag, rhoddodd yr adroddiad hwn gyfle inni edrych ar ymateb Llywodraeth Cymru i’r argyfwng hwn. Mae’r gefnogaeth a roddwyd wedi bod yn achubiaeth i lawer, ond mae pryderon ynghylch yr hyn sy’n digwydd nesaf wrth i’r cymorth sydd ar gael leihau ac wrth i aelwydydd wynebu prisiau uwch yn barhaol.

Clywsom fod perygl y gallai’r ymateb fod yn un tymor byr, ond mai’r hyn sydd ei angen yw dull mwy cynaliadwy ac ataliol. Rydym o’r farn bod modd cyflawni hyn os bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ei hymdrechion ar feithrin gallu economaidd a gwydnwch drwy fuddsoddi mewn meysydd fel ynni gwyrdd, sgiliau a diogeledd bwyd. Dim ond wedyn y bydd Cymru yn dod o hyd i lwybr allan o dlodi ac yn rhoi diwedd ar y poen sy’n gysylltiedig â lefelau anghynaliadwy o ddyled bersonol.

Clywsom enghreifftiau trawiadol o sut olwg fyddai ar ddull mwy cynaliadwy. O ran tlodi bwyd, rydym am i Gymru fabwysiadu dull mwy ataliol o wrthdroi’r cynnydd syfrdanol yn y defnydd o fanciau bwyd. Y llwybr cynaliadwy allan o dlodi tanwydd yw gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi pobl yn aruthrol, sy'n ofynnol beth bynnag i gyrraedd ein targedau o ran lleihau carbon.

Mae mwy y gellid ei wneud hefyd i wella o ran y nifer sy’n manteisio ar yr hyn mae ganddynt hawl iddo. Rydym am weld Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i wella trefniadau pasbortio a rhannu data, a thrwy hynny sicrhau bod aelwydydd tlawd sy'n gymwys i gael un o ‘fudd-daliadau Cymru’ yn cael budd-daliadau eraill yn awtomatig os oes ganddynt hawl iddynt. Byddai hyn yn helpu i leddfu’r caledi y mae llawer yn ei wynebu ar hyn o bryd. Ac er bod arwyddion calonogol o gynnydd yn y maes hwn, rydym am weld hyn yn cyflymu a’r Llywodraeth yn sicrhau bod dull mwy cydlynol ar gyfer Cymru gyfan yn cael ei gyflwyno.

Rydym yn ddiolchgar i’r elusennau, melinau trafod, cyrff cyhoeddus ac unigolion am eu cyfraniadau at yr ymchwiliad hwn. I’r rhai a gymerodd ran yn ein grwpiau ffocws yn enwedig, mae eich cyfraniadau'n dangos mewn ffordd mor bwerus pam mae angen mwy o gyfiawnder economaidd a chymdeithasol nawr, ac yn y blynyddoedd i ddod.



**Jenny Rathbone AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU i fonitro effaith prisiau cynyddol yn agos, ynghyd â'r effaith anghymesur ar grwpiau sy'n agored i niwed. Dylai'r cymorth cymorth a roddir i aelwydydd i'w helpu gyda'r cynnydd brawychus mewn costau byw fod yn destun adolygu parhaus. ........................................................................................ Tudalen 16

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Cynllun Gweithredu tymor hir yn amlinellu sut y bydd yn blaenoriaethu newid tuag at fesurau ataliol sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol sy'n achosi tlodi ac anghydraddoldebau cyfoeth ac incwm. Dylai'r Cynllun Gweithredu gynnwys mesurau i helpu pobl i wella eu sefyllfa yn wyneb pwysau costau byw a gwella gwydnwch economaidd drwy fuddsoddi mewn meysydd fel ynni gwyrdd, sgiliau a diogeledd bwyd. Er mwyn llywio ei ddull gweithredu dylai wneud y canlynol:

- comisiynu gwerthusiad annibynnol, allanol o effaith economaidd y cymorth costau byw a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23;
- ▪cynnal asesiad o i ba raddau y mae dulliau gweithredu ar gyfer y dyfodol yn cydbwyso mesurau rhagweithiol a rhai ymatebol i gefnogi'r broses o liniaru a lleihau tlodi.

Byddem yn disgwyl i'r gwaith paratoi gael ei gwblhau erbyn diwedd 2023 ac i'r Cynllun Gweithredu gael ei gyhoeddi erbyn mis Mai 2024 fan bellaf. ........................................................................................ Tudalen 21

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd i helpu i leihau'r ddibyniaeth ar Daliadau Cymorth mewn Argyfwng gan aelwydydd y mae angen sawl taliad brys arnynt. Dylai hyn gynnwys cyhoeddi dadansoddiad terfynol o'r cymorth a ddarparwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23. ........................................................................................ Tudalen 22

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i wneud y canlynol:

- cyhoeddi data wedi'u dadgyfuno yn ôl grŵp demograffig ar y nifer sy'n defnyddio'r Gronfa Cymorth Dewisol;
- cynnal asesiad o ba ddata ychwanegol wedi'u dadgyfuno y gall eu cyhoeddi ar gyfer grantiau prawf modd eraill y mae'n eu cynnig.

Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am y gwaith hwn erbyn diwedd mis Medi 2023.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru droi ei gweledigaeth ar gyfer system fudd-daliadau Cymru yn realiti a mandadu dull cyson, Cymru gyfan o basbortio aelwydydd sy'n cael un o fudd-daliadau Cymru i fudd-daliadau eraill y maent yn gymwys i'w cael. Gan weithio gydag awdurdodau lleol, y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, ac eraill, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith yn y maes hwn erbyn diwedd mis Medi 2023, ac anfon gwybodaeth reolaidd yn ei gylch ar ôl hynny. .................. Tudalen 25

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy cynaliadwy ac ataliol o fynd i'r afael â thlodi bwyd drwy gefnogi mentrau cymdeithasol sy'n gweithredu i gyflawni nodau ehangach megis gwella sgiliau coginio mewn cymunedau lleol a darparu prydau iach. Er mwyn gwneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru fapio'r ddarpariaeth bresennol o gymorth ar gyfer mynd i'r afael â thlodi bwyd yn ôl y math o gefnogaeth ym mhob ardal awdurdod lleol, gyda'r bwriad o ddatblygu strategaeth fwy cynaliadwy ar gyfer mynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd ledled Cymru. Dylid cwblhau'r ymarfer mapio cychwynnol erbyn diwedd 2023 a'i rannu â'r Pwyllgor hwn. ..................... Tudalen 29

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo'r dull a fabwysiadwyd yn Sir y Fflint, o droi llety gwarchod yn Ganolfannau Clyd, ymhlith awdurdodau lleol eraill drwy ymgysylltu â'r arweinwyr lleol. Dylid bwrw ati mewn da bryd cyn gaeaf 2023-24.......................................................................................................... Tudalen 33

**Argymhelliad 8.** Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati ar frys i egluro nifer o faterion sy'n ymwneud â disodli'r Rhaglen Cartrefi Clyd gan gynnwys:

- pam mae'r gwaith o ddatblygu Rhaglen Cartrefi Clyd newydd yn destun oedi;
- a yw'n bwriadu gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r raglen Nyth bresennol gan ei bod bellach wedi'i hymestyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024;
- a fydd y rhaglen newydd yn cynnwys elfen sy'n seiliedig ar ardaloedd, ac os felly, a fydd hyn yn dechrau ddiwedd y gaeaf. .................. Tudalen 33

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa drafodaethau y mae wedi'u cael ag Ofgem i leisio ei phryderon y byddai ailddechrau'r arfer o orfodi aelwydydd i gael mesuryddion rhagdalu yn dilyn adolygiad Ofgem o fesuryddion rhagdalu yn rhoi amddiffyniad annigonol i aelwydydd sy'n agored

i niwed. Dylai hefyd nodi manylion unrhyw gamau pellach y bydd yn eu cymryd i amddiffyn grwpiau o gwsmeriaid sy'n agored i niwed. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am waith yn y maes hwn ac adrodd yn ôl erbyn diwedd mis Medi 2023. .................................................. Tudalen 35

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ffigurau terfynol ynghylch y nifer sy'n manteisio ar ei Chynllun Talebau Tanwydd yn unol ag argymhelliad 6 o adroddiad y Pwyllgor hwn ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 cyn gynted ag y bydd y wybodaeth hon ar gael. ........................................................ Tudalen 36

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd mewn perthynas ag argymhellion 1, 3, 4, 5, a 7 o'n hadroddiad yn 2021 ar ddyled a'r pandemig a ddylai gynnwys, lle bo'n berthnasol, unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r argyfwng costau byw. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno erbyn diwedd mis Mehefin 2023. .......................................................................................................................... Tudalen 38

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Cyngor ar Bopeth Cymru i fonitro lefel y galw am gyngor ar ddyled a chyngor arall o dan y Gronfa Gynghori Sengl ac ymrwymo i adolygu'r dyraniadau cyllid yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24 os oes angen. Dylid darllen yr argymhelliad hwn ochr yn ochr ag argymhelliad 3 o'n hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24. .............. Tudalen 38

**Argymhelliad 13.** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda chynghorau i roi sylw i'r diffygion a nodwyd yn yr adolygiad o'r Protocol Treth Gyngor, ynghyd â phryderon rhanddeiliaid fel y'u hamlygwyd gan y Pwyllgor hwn, fel rhan o'i rhaglen ddiwygio ehangach. Dylai hyn gynnwys rhoi Protocol cryfach ar sail statudol. Dylid bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn gyflym a rhoi diweddariad i'r Senedd cyn diwedd mis Medi 2023. ........................................................................ Tudalen 40

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y bydd yn eu cymryd yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24 i godi ymwybyddiaeth o undebau credyd a hyrwyddo credyd fforddiadwy, gan gynnwys y nodau a'r disgwyliadau ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Benthyciadau Di-Log ar raddfa fwy eang. Dylid rhoi'r diweddariad hwn cyn i'r broses o'i gyflwyno ar raddfa fwy eang ddechrau ym mis Mehefin 2023. ............... Tudalen 42

# 1. Cefndir

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar waith blaenorol gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, yn enwedig ei adroddiad yn 2021 ynghylch **Dyled a'r Pandemig**; ei adroddiad ym mis Mai 2022 ar **dlodi tanwydd**; a chylchoedd craffu blaenorol ar y gyllideb (yn enwedig **2023-24**). I gael rhagor o wybodaeth am gefndir yr ymchwiliad hwn, gan gynnwys y cylch gorchwyl **ewch i hafan yr ymchwiliad**.

## Casglu tystiolaeth

**2.** Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth gan set o randdeiliaid a dargedwyd a oedd yn cynnwys: elusennau, melinau trafod, undebau credyd, a chyrff cyhoeddus.

**3.** Cynhaliodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd chwe grŵp ffocws (tri ar-lein a thri wyneb yn wyneb) i gasglu barn unigolion sydd â phrofiad o ddyled a phwysau costau byw, gan ganolbwyntio'n benodol ar rieni; pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig; a phobl ag anableddau a/neu broblemau iechyd.

**4.** Rydym yn ddiolchgar i'r rhai a gymerodd ran yn ein sesiynau grŵp ffocws ar y pwnc heriol hwn am fod mor onest ac agored wrth rannu eu profiadau. **Mae crynodeb o'r trafodaethau hynny ar gael ar-lein**.

**5.** Clywodd y Pwyllgor gan Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, ar 27 Chwefror 2023. Rhoddir rhestr lawn o'r dystiolaeth a gasglwyd yn Atodiadau 1 a 2.

**6.** Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwiliad.

Os ydych chi, neu rywun rydych yn ei adnabod, yn cael trafferth gydag effeithiau'r materion a godir yn yr adroddiad hwn, ewch i dudalen we Ymchwil y Senedd ynghylch **costau byw - cymorth a gwybodaeth**.[1]

Fel arall, ewch i dudalen we **Cael help gyda chostau byw** Llywodraeth Cymru.[2]

Mae URLs ar gyfer y ddau wedi'u nodi yn y troednodiadau isod.

[1] https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/costau-byw-cymorth-a-gwybodaeth/
[2] https://www.llyw.cymru/help-gyda-chostau-byw

# 2. Effaith costau byw cynyddol

Mae costau byw cynyddol yn effeithio ar bob aelwyd yn y wlad. Gwraidd y broblem yw nad oes gan gannoedd o filoedd o bobl ledled Cymru ddigon o arian yn dod i mewn i dalu costau bywyd.[3]

**7.** Cafwyd cynnydd o 10.1 y cant yn y brif gyfradd chwyddiant, y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, yn ystod y 12 mis hyd at fis Mawrth 2023.[4] Roedd hyn yn is na'i uchafbwynt o 11.1 y cant ym mis Hydref 2022 ond yn llawer uwch na'r cyfartaledd dros y degawdau diwethaf. Mae effeithiau prisiau sy'n cynyddu'n gyflym a chyflogau sy'n isel neu'n aros yn eu hunfan wedi arwain at yr ymadrodd 'argyfwng costau byw'. Mae prisiau cynyddol yn parhau i erydu gwerth cyflogau ac mae'r Swyddfa â Chyfrifoldebau dros y Gyllideb wedi rhagweld y bydd safonau byw ar draws y DU yn gostwng 7 y cant yn 2024.[5]

**8.** Roedd data gan Sefydliad Bevan, Ymddiriedolaeth Trussell a Cyngor ar Bopeth Cymru i gyd yn dangos sut roedd yr argyfwng costau byw yn effeithio ar aelwydydd yng Nghymru. Mae'r goblygiadau ar gyfer gwariant cartrefi, ac ôl-ddyledion ar filiau cartrefi i gyd wedi'u nodi yn Ffigur 1: effaith yr argyfwng costau byw ar aelwydydd yng Nghymru.[6]

**9.** Dywedodd StepChange wrthym, er ei fod wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn ceisio cyngor ar ddyledion ynni a chyllidebu negyddol, nad oedd y cynnydd hwn mor uchel â'r cyfnod yn dilyn argyfwng ariannol 2008.[7] Canfu arolwg a gomisiynwyd gan StepChange a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022 fod 50 y cant o bobl yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd talu eu biliau, cyfran uwch nag yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

---

[3] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor ar Bopeth Cymru
[4] Swyddfa Ystadegau Gwladol, Chwyddiant prisiau defnyddwyr, y DU: Mawrth 2023 – 19 Ebrill 2023
[5] Swyddfa â Chyfrifoldebau dros y Gyllideb, Trosolwg o ragolygon economaidd a chyllidol Tachwedd 2022 – 17 Tachwedd 2022
[6] Sefydliad Bevan, A snapshot of poverty in winter 2023 – 2 Chwefror 2023; Cyngor ar Bopeth Cymru Kept in the dark (Cymru); tystiolaeth ysgrifenedig, Ymddiriedolaeth Trussell
[7] Tystiolaeth ysgrifenedig, StepChange

# Materion ariannol

## Effaith y cynnydd mewn costau byw ar wariant cartrefi a biliau cartref sy'n ddyledus


### SAFONAU BYW



Mae dros un o bob wyth cartref (14%) **heb ddigon o arian ar gyfer hanfodion sylfaenol**

*- Bevan Foundation*

### COSTAU BYW




Yn ôl CAB Cymru, yn 2022, **ceisiwyd cymorth gan fwy o bobl a oedd yn methu fforddio rhoi arian ychwanegol ar eu mesurydd rhagdalu nag yn y 10 mlynedd blaenorol gyda'i gilydd**



**Roedd 13% o bobl mewn dyled**

*- Bevan Foundation*



**Roedd 28% wedi benthyg arian i dalu costau**

*- Bevan Foundation*

**10.** Cefnogodd Cyngor ar Bopeth Cymru bron i 30,000 o bobl gyda chyngor ar ddyled yn 2022 a gwnaeth nifer y bobl a oedd yn ceisio cyngor ar ddyledion ynni gyrraedd ei lefel uchaf erioed.[8] Dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru fod yr aelwydydd hyn yn cael trafferth talu ar gyfer hanfodion:

> *"… the sharp increase in people seeking debt advice over the last year isn't being driven by more people borrowing and struggling to service consumer credit, but rather because more and more people are falling into arrears on essential household bills such as council tax, energy, and rent. Put simply, many people just haven't got enough income coming in to cover their ever-increasing essential living costs."*[9]

**11.** Dywedodd Peter Tutton o StepChange wrthym fod y broblem yn effeithio fwyfwy ar bobl mewn cyflogaeth amser llawn, a bod llawer yn troi atynt am gymorth am y tro cyntaf. Dywedodd:

> *"Over half our clients are in some form of employment […] and about 40 per cent are in full-time employment, and that's grown a bit, and the cost of living is certainly putting more people who are higher up the income scale under pressure."*[10]

**12.** Cadarnhaodd sawl tyst, gan gynnwys Karen Davies o Purple Shoots a Robbie Davison o Well-Fed, fod pwysau costau byw yn effeithio ar bobl ar incwm uwch nag mewn dirywiadau economaidd blaenorol.[11] Dywedodd Robbie Davison:

> *"What's been interesting, and almost alarming at the same time, is that there are people now coming through the system who have never been in need of food aid before or, if you like, poverty services at all."*[12]

**13.** Cytunodd Jen Griffiths o Gyngor Sir y Fflint:

> *"it's almost like there's a squeezed middle who are missed by the benefits system because they simply wouldn't qualify.*

---

[8] Citizens Advice Cymru cost of living dashboard – Chwefror 2023
[9] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor ar Bopeth Cymru
[10] Cofnod Trafodion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol (ROP), paragraff 13 – 30 Ionawr 2023
[11] Cofnod y Trafodion, paragraffau 11 a 154 – 13 Chwefror 2023
[12] Cofnod y Trafodion, paragraff 11 – 13 Chwefror 2023

> *However, because of the cost of living, they're just really struggling to cope, and it's certainly something we've seen through our hub models in Flintshire. People we've never bumped into before are accessing services and trying to find ways to alleviate their situation."*[13]

**14.** Roedd consensws ymhlith y rhai a gymerodd ran yn ein grwpiau ffocws bod y pwysau costau byw yn waeth nag erioed o'r blaen. Gwnaethant ddisgrifio'r effaith negyddol yr oedd y pwysau hyn yn ei chael ar eu lles emosiynol, corfforol a meddyliol.[14]

**15.** Nododd Ymddiriedolaeth Trussell fod mwy o weithwyr yn troi at fanciau bwyd am gymorth; yng nghanol 2022, roedd 20 y cant o'r bobl a atgyfeiriwyd i fanc bwyd o aelwyd lle roedd pobl yn gweithio.[15]

## Effaith ar grwpiau penodol

**16.** Mae ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn dangos bod aelwydydd ar incwm is yn wynebu cyfradd chwyddiant uwch nag aelwydydd ar incwm uchel.[16] Mae hyn oherwydd effaith cynnydd mewn prisiau nwyddau a gwasanaethau fel bwyd, nwy a thrydan y mae aelwydydd incwm is yn gwario cyfran uwch o'u hincwm arnynt.

**17.** Tynnodd Cyngor ar Bopeth Cymru, Chwarae Teg, Sefydliad Bevan, a StepChange, i gyd sylw at effaith anwastad y cynnydd mewn prisiau ar wahanol grwpiau ac ar draws gwahanol broffiliau incwm.[17]

**18.** Nododd Peter Tutton o StepChange a Dr Steffan Evans o Sefydliad Bevan sawl grŵp penodol y mae'r cynnydd mewn costau byw yn effeithio'n anghymesur arnynt: menywod, rhieni sengl, rhentwyr (yn enwedig y sector preifat), oedolion o dan 50 oed, a gofalwyr.[18]

**19.** Dywedodd Chwarae Teg fod yr argyfwng costau byw yn rhoi menywod mewn sefyllfa economaidd fwy ansicr ac yn cynyddu'r tebygolrwydd o fynd i

---

[13] Cofnod y Trafodion, paragraff 13 – 13 Chwefror 2023
[14] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Crynodeb o drafodaethau grwpiau ffocws
[15] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ymddiriedolaeth Trussell
[16] Swyddfa Ystadegau Gwladol, Inflation and cost of living for household groups, UK: Hydref 2022 – 16 Tachwedd 2022
[17] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor ar Bopeth Cymru, Chwarae Teg, Sefydliad Bevan, StepChange, a Ymddiriedolaeth Runneymede
[18] Cofnod y Trafodion, paragraffau 8 i 12, 17 i 19 – 30 Ionawr 2023

ddyled. Roedd hyn oherwydd anghydraddoldebau parhaus y mae menywod yn eu hwynebu a'u sefyllfa anghyfartal yn y farchnad lafur.[19]

**20.** Dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru fod hanner eu cleientiaid dyled (48 y cant) bellach yn byw ar gyllideb negyddol, i fyny o 36 y cant yn gynnar yn 2019, a bod eu dadansoddiad data ar gyfer Cymru a Lloegr yn dangos mai'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf yw pobl ddi-waith, tenantiaid yn y sector preifat, pobl anabl, a'r rhai â chyflyrau iechyd hirdymor. Mae gan dros hanner eu cleientiaid sy'n ceisio cyngor ar gostau byw anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor.[20]

**21.** Canfu ymchwil gan Ymddiriedolaeth Runnymede fod pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig wedi'u gorgynrychioli'n sylweddol ymysg y grwpiau incwm isaf ac ar hyn o bryd maent yn profi lefelau llawer uwch o ansicrwydd bwyd, amddifadedd materol a thlodi tanwydd. Gwnaethant amlygu bod pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru 3.5 gwaith yn fwy tebygol o fod mewn tlodi na phobl wyn. [21]

**22.** Dyfynnodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol amrywiaeth o ffynonellau i brofi bod pwysau costau byw yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau incwm isel, rhentwyr, pobl ag anableddau a phobl o leiafrifoedd ethnig. Tynnodd y Gweinidog sylw at y baich hirdymor ar aelwydydd incwm isel:

> *"Ni ddylid gweld yr argyfwng costau byw presennol fel rhywbeth sy'n sefyll ar ei ben ei hun. I lawer o bobl sy'n byw gyda dyled, mae'r argyfwng hwn yn benllanw blynyddoedd o anfantais, yn sgil 10 mlynedd o fesurau cyni a ddihysbyddodd y gwasanaethau cymorth i bobl fregus."*[22]

### Ein barn ni

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae chwyddiant wedi codi i lefelau nad ydym wedi'u gweld ers dechrau'r 1980au. O ganlyniad i gostau ynni cynyddol, mae prisiau wedi codi'n aruthrol mewn llawer o wledydd; gyda chyfraddau chwyddiant mewn ffigurau dwbl yn y DU. Mae llawer o aelwydydd a theuluoedd cyffredin yn ysgwyddo baich y cynnydd mewn costau byw. Mae cyfuniad o ddiffyg twf mewn cyflogau a chynnydd aruthrol mewn prisiau yn golygu bod llawer yn methu fforddio costau pethau sylfaenol sydd eu hangen

[19] Ymchwil y Senedd, "Menywod yw'r rhai sy'n lleddfu ergyd tlodi": Effaith costau byw ar fenywod – 26 Hydref 2022
[20] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor ar Bopeth Cymru
[21] Ymddiriedolaeth Runnymede, Falling Faster amidst a Cost-of-Living Crisis: Poverty, Inequality and Ethnicity in the UK
[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

o ddydd i ddydd sef bwyd, tanwydd a llety. Mae nifer gynyddol o bobl yn gweld eu bod yn brin o arian ar ddiwedd pob mis ac mae'r rhaniadau a'r anghydraddoldebau amlwg o ran cyfoeth ac incwm yn economi'r DU yn gwaethygu o ganlyniad. Mae canfyddiadau ein sesiynau grŵp ffocws yn cadarnhau hyn ac yn tynnu sylw at ymdeimlad cynyddol o anobaith ymhlith teuluoedd sy'n methu cael dau ben llinyn ynghyd. Mae darllen y sylwadau yn brofiad sobreiddiol a thrallodus.

Mae'r prisiau cynyddol yn cael effaith anghymesur ar rai grwpiau, gan gynnwys rhieni sengl, rhentwyr, gofalwyr, pobl ag anableddau a lleiafrifoedd ethnig. Yr hyn sy'n drawiadol yw bod caledi economaidd yn effeithio fwyfwy ar aelwydydd sy'n gweithio mewn swydd amser llawn yn ogystal â'r rhai sy'n dibynnu ar fudd-daliadau fel rhwyd ddiogelwch. Mae'r duedd hon yn destun pryder sy'n awgrymu her systemig, un y mae angen gweithredu ar lefel y DU i fynd i'r afael â hi yn y pen draw.

Mae ansicrwydd o hyd ynghylch y gyfradd chwyddiant yn y dyfodol. Er y disgwylir iddo ddychwelyd yn y pen draw i'r gyfradd darged o 2 y cant, bydd aelwydydd yn parhau i gael trafferth gydag effaith prisiau uwch yn barhaol yn y tymor hir. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn monitro'n agos effeithiau anghymesur y chwyddiant prisiau hwn ar grwpiau sy'n agored i niwed. Dylai'r cymorth a roddir i aelwydydd i helpu gyda chostau byw fod yn destun adolygu parhaus.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU i fonitro effaith prisiau cynyddol yn agos, ynghyd â'r effaith anghymesur ar grwpiau sy'n agored i niwed. Dylai'r cymorth cymorth a roddir i aelwydydd i'w helpu gyda'r cynnydd brawychus mewn costau byw fod yn destun adolygu parhaus.

## Cymorth costau byw gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU

**23.** Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymateb i'r argyfwng costau byw gyda phecynnau cymorth sylweddol. Mae ymateb Llywodraeth Cymru wedi cynnwys Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru 2022-23, y Cynllun Talebau Tanwydd a chynnydd i'r Gronfa Cymorth Dewisol.. Mae cefnogaeth Llywodraeth y DU wedi cynnwys y Warant Pris Ynni, y Cynllun Cymorth Biliau Ynni, a chyfres o Daliadau Costau Byw. Ceir dadansoddiad manwl o becynnau cymorth y llywodraeth sydd â'r nod o helpu gyda chostau byw cynyddol, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd, yn Atodiad C.

## Dull Llywodraeth Cymru

**24.** Ar y cyfan, roedd y rhanddeiliaid yn croesawu'r mesurau cymorth a ddarparwyd. Fodd bynnag, lleisiodd sawl sefydliad bryderon ynghylch eu natur dros dro a'r effaith ar aelwydydd pan ddaw cynlluniau i ben.[23] Nododd Cyngor ar Bopeth Cymru, pan wnaed Taliadau Costau Byw cyntaf Llywodraeth y DU yr haf diwethaf, eu bod wedi gweld gostyngiad dros dro mewn ceisiadau am gymorth mewn argyfwng a chyngor ar ddyledion, ond dychwelodd ceisiadau am y cymorth hwn yn fuan wedi hynny i'r lefelau blaenorol.[24]

**25.** Yn yr un modd, dywedodd Ymddiriedolaeth Trussell wrthym fod Taliad Costau Byw cyntaf Llywodraeth y DU ond yn rhoi seibiant dros dro yn wyneb costau cynyddol a lefelau annigonol o fudd-daliadau. Mewn arolwg gan YouGov ar ran Ymddiriedolaeth Trussell, roedd dros dri chwarter o'r rheini a gafodd y taliad ym mis Gorffennaf 2022 wedi ei wario erbyn diwedd y mis. Roedd wedi cael ei ddefnyddio'n bennaf i brynu bwyd, hanfodion, neu dalu dyled.[25] Daeth Ymddiriedolaeth Trussell i'r casgliad a ganlyn:

> *"while some interventions, such as November's Cost of Living payment and the Welsh Government's fuel support scheme may have provided some crucial respite for families struggling to afford the essentials, it has not been enough to help them manage the cost of living crisis for an extended period of time."*[26]

**26.** Croesawodd Chwarae Teg ymateb Llywodraeth Cymru hyd yn hyn ond dadleuodd y gallai cymorth yn y dyfodol gael ei ehangu a'i dargedu'n fwy effeithiol, a chyfeiriodd at ofal plant, gostyngiad yn y dreth gyngor a chymorth i ddeall y system fudd-daliadau fel blaenoriaethau posibl.[27]

**27.** Dadleuodd Sarah Germain o FareShare y byddai mynd i'r afael â thlodi yn y tymor hwy yn gofyn am gyfleoedd i gael cyflogaeth dda ac annog mwy o gyflogwyr i fabwysiadu'r cyflog byw gwirioneddol.[28]

**28.** Tynnodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi £1.6 biliwn mewn cymorth costau byw wedi'i dargedu a rhaglenni 'cyflog cymdeithasol' sy'n cadw arian ym mhocedi pobl.[29]

[23] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor ar Bopeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[24] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor ar Bopeth Cymru
[25] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ymddiriedolaeth Trussell
[26] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ymddiriedolaeth Trussell
[27] Tystiolaeth ysgrifenedig, Chwarae Teg
[28] Cofnod y Trafodion, paragraff 97 – 13 Chwefror 2023
[29] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

Tynnodd sylw at y sefyllfa sy'n gwaethygu ar gyfer y rhan fwyaf o aelwydydd a galwodd ar yr Adran Gwaith a Phensiynau i arwain y gwaith o gefnogi pobl drwy'r argyfwng. Dywedodd y Gweinidog:

> *"an estimated 90,000 households are having an average of £60 per month deducted from their Universal Credit awards, and around 50 per cent of people receiving debt advice who have deficit budgets get Universal Credit. [...] Deductions from Universal Credit are mostly to repay debts owed to the UK Government itself, including the advance payment that people have to claim to get through the five weeks' wait for their first Universal Credit payment."*[30]

## Y Gronfa Cymorth Dewisol

**29.** Dyrannwyd £38.5 miliwn i'r Gronfa Cymorth Dewisol ar gyfer 2023-24, sef cynnydd o £18.8 miliwn ar y flwyddyn ariannol flaenorol.[31] Er bod y rhan fwyaf yn cefnogi'r cynnydd i gyllideb y Gronfa Cymorth Dewisol, roedd pryderon ynghylch ei chynaliadwyedd a'i haddasrwydd ar gyfer mynd i'r afael â'r caledi a wynebir gan deuluoedd yn y tymor hir.

**30.** Er ei fod yn croesawu cefnogaeth y llywodraeth gyda chostau byw, disgrifiodd Cyngor ar Bopeth Cymru y mesurau fel rhai dros dro sy'n gwneud iawn am ddiffyg nawdd cymdeithasol, cyflogau isel a gwasanaethau hanfodol sy'n fwyfwy anfforddiadwy. Ychwanegodd:

> *"The continued boost to DAF funding during 2023-24 is very welcome but this is support to help people with short term, emergency needs. While such emergency support is vital now, what's really called for is a proactive solution to get us out of the cycle of reactive crisis support."*[32]

**31.** Disgrifiodd Susan Selby-Lloyd o Ymddiriedolaeth Trussell gefnogaeth Llywodraeth Cymru gyda chostau byw fel rhywbeth i'w groesawu'n fawr, ond rhybuddiodd:

> *"Those short-term mitigations clearly help people. In the long term, the evidence indicates that they're not sufficient to*

[30] Cofnod y Trafodion, paragraff 172 – 27 Chwefror 2023
[31] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, Newidiadau i'r Gronfa Cymorth Dewisol o 1 Ebrill 2023 ymlaen – 28 Chwefror 2023
[32] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor ar Bopeth Cymru

*sustain people and lift them out of poverty and needing charitable food aid."*[33]

**32.** Galwodd Ymddiriedolaeth Trussell am i Gronfa Argyfyngau Cymru newydd i ddisodli'r Gronfa Cymorth Dewisol, gyda meini prawf cymhwysedd clir.[34]

**33.** Dywedodd Peter Tutton fod y Gronfa Cymorth Dewsiol, er ei bod yn bwysig o ran cadw pobl allan o ddyled neu gredyd niweidiol, yn llai defnyddiol fel modd o leihau tlodi. Nododd mai'r hyn sydd ei angen i gadw pobl allan o dlodi yw incwm sefydlog, digonol, parhaus.[35]

**34.** Dywedodd Dr Steffan Evans fod mesur effeithiolrwydd y Gronfa Cymorth Dewisol yn gryn her, oherwydd er bod Llywodraeth Cymru yn coladu data ar wahanol grwpiau demograffig sy'n cael cymorth, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi fel mater o drefn. Nododd y byddai cyhoeddi'r data hyn yn fuddiol i sefydliadau yn y sectorau gwrth-dlodi a chynghori, fel y gellir targedu'r gwaith o godi ymwybyddiaeth at grwpiau â nifer gymharol isel o bobl sy'n defnyddio'r gronfa, ac fel y gallant ymchwilio i faterion sy'n effeithio ar grwpiau lle mae cryn dipyn o gynnydd yn y niferoedd sy'n ei defnyddio.[36]

**35.** Roedd Karen Davies o Purple Shoots yn cefnogi ehangu'r Gronfa Cymorth Dewisol a dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu i godi ymwybyddiaeth a chynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar y gronfa.[37]

**36.** Yn ystod ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2023-24, dywedodd y Gweinidog ei bod wedi blaenoriaethu cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol a'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol mewn ymateb i bwysau parhaus o ran costau byw.[38] Ar 28 Chwefror 2023 amlinellodd y Gweinidog newidiadau i'r Gronfa Cymorth Dewisol o fis Ebrill 2023 ymlaen gan gynnwys cysoni rheolau ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol a Thaliadau Cymorth mewn Argyfwng; cynyddu lefel y dyfarniadau 11 y cant; a lleihau nifer y dyfarniadau a roddir (i rai grwpiau cymwys) o bump i deirgwaith mewn cyfnod treigl o ddeuddeng mis tra'n lleihau'r bwlch a ganiateir rhwng ceisiadau i saith diwrnod.[39]

---

[33] Cofnod y Trafodion, paragraff 25 – 27 Chwefror 2023
[34] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ymddiriedolaeth Trussell
[35] Cofnod y Trafodion, paragraff 75 – 30 Ionawr 2023
[36] Cofnod y Trafodion, paragraff 71 – 30 Ionawr 2023
[37] Cofnod y Trafodion, paragraff 239 – 13 Chwefror 2023
[38] Papur Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru - y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – 16 Ionawr 2023
[39] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, Newidiadau i'r Gronfa Cymorth Dewisol o 1 Ebrill 2023 ymlaen – 28 Chwefror 2023

**37.** Er i'r newidiadau a gyhoeddwyd i'r Gronfa ddod ar ôl i ni gwblhau'r rhan fwyaf o'n gwaith casglu tystiolaeth, croesawodd Sefydliad Bevan y newidiadau, yn enwedig y penderfyniad i gynyddu taliadau yn unol â chwyddiant.[40] Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod yr hyblygrwydd a gyflwynwyd yn ystod pandemig COVID-19 wedi bod yn "hynod o ymatebol i anghenion y bobl fwyaf diamddiffyn wrth i bwysau costau byw gynyddu."[41]

## Ein barn ni

### Cymorth gyda chostau byw

Er bod mesurau i gefnogi pobl gyda chostau byw gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i'w croesawu, maent yn annhebygol o roi terfyn ar y caledi a wynebir gan y cartrefi tlotaf. Nodwn fod Sefydliad Joseph Rowntree wedi dod i'r casgliad nad yw'r mesurau a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022 wedi bod yn ddigon i atal caledi cynyddol i bobl yn yr 20 y cant isaf o'r dosbarthiad incwm, yn enwedig y rhai ar Gredyd Cynhwysol.42

### Dull Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwario symiau sylweddol o arian ar gefnogi pobl sy'n agored i niwed a'r rhai ar yr incwm isaf gyda phwysau sy'n deillio o gostau byw cynyddol. Roedd yr holl dystiolaeth a gawsom yn dangos cefnogaeth i'r ymyriadau hyn ac mae'n amlwg y byddai llawer o aelwydydd fel arall yn wynebu lefelau uwch o galedi.

Fodd bynnag, mae pryderon yn codi dro ar ôl tro bod y mesurau hyn yn ymateb dros dro i faterion sy'n gofyn am ddull ataliol mwy hirdymor. Daethom i gasgliad tebyg yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 a gwnaethom alw am greu cynllun costau byw.[43] Yn unol â'r argymhelliad hwnnw, hoffem weld Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun tymor hir sy'n **blaenoriaethu mesurau ataliol a gwariant gyda'r nod o fynd i'r afael â ffactorau sy'n achosi tlodi ac anghydraddoldebau mewn incwm a chyfoeth** hwy yn hytrach na chanolbwyntio ar y symptomau. Rydym yn cydnabod ei bod yn haws dweud na gwneud hyn weithiau, yn enwedig pan fydd ysgogiadau polisi economaidd sylweddol wedi'u cadw yn San Steffan. Fodd bynnag, mae profiadau'r blynyddoedd diwethaf wedi dangos bod angen i ni feithrin gallu economaidd

[40] Sefydliad Bevan, Welcome for Welsh Government announcement on the Discretionary Assistance Fund
[41] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[42] Sefydliad Joseph Rowntree, Going under and without: JRF's cost of living tracker, winter 2022/23 – 14 Rhagfyr 2022
[43] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2022-23 – Chwefror 2023

a gwytnwch drwy fuddsoddi mewn meysydd fel ynni gwyrdd a diogelwch bwyd. Er mwyn sicrhau bod dulliau gweithredu yn y dyfodol yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng mesurau rhagweithiol a rhai ymatebol, rydym yn cytuno ei bod yn werth cynnal gwerthusiad allanol o effaith economaidd y pecyn cymorth costau byw a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2022-23.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Cynllun Gweithredu tymor hir yn amlinellu sut y bydd yn blaenoriaethu newid tuag at fesurau ataliol sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol sy'n achosi tlodi ac anghydraddoldebau cyfoeth ac incwm. Dylai'r Cynllun Gweithredu gynnwys mesurau i helpu pobl i wella eu sefyllfa yn wyneb pwysau costau byw a gwella gwydnwch economaidd drwy fuddsoddi mewn meysydd fel ynni gwyrdd, sgiliau a diogeledd bwyd. Er mwyn llywio ei ddull gweithredu dylai wneud y canlynol:

- comisiynu gwerthusiad annibynnol, allanol o effaith economaidd y cymorth costau byw a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23;
- cynnal asesiad o i ba raddau y mae dulliau gweithredu ar gyfer y dyfodol yn cydbwyso mesurau rhagweithiol a rhai ymatebol i gefnogi'r broses o liniaru a lleihau tlodi.

Byddem yn disgwyl i'r gwaith paratoi gael ei gwblhau erbyn diwedd 2023 ac i'r Cynllun Gweithredu gael ei gyhoeddi erbyn mis Mai 2024 fan bellaf.

### Y Gronfa Cymorth Dewisol

Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol wedi cael ei datblygu a'i haddasu ers iddi gael ei chreu yn 2013. Defnyddiodd Llywodraeth Cymru y Gronfa i ymateb i sawl argyfwng digynsail yn y blynyddoedd diwethaf ac, er clod iddi, mae wedi gwneud hynny gyda hyblygrwydd a phragmatiaeth. Fel ffynhonnell cyllid brys, y mae'n glir bod y Gronfa wedi chwarae rhan bwysig o ran cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed ar adegau o argyfwng personol a chaledi.

Cyhoeddwyd newidiadau pellach i'r Gronfa ym mis Chwefror 2023. Roeddent yn cynnwys penderfyniad i gynyddu'r dyfarniadau sy'n bosibl drwy'r system Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn unol â chyfradd chwyddiant CPI, ac rydym yn croesawu hynny'n fawr. Rydym yn llai sicr ynghylch newidiadau i leihau nifer y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng y mae aelwydydd yr effeithiwyd arnynt gan COVID neu'r penderfyniad i ddileu'r cynnydd o £20 i Gredyd Cynhwysol yn gymwys i'w cael o bump i dri dros gyfnod o 12 mis.

Yn unol â'n safbwynt y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy rhagweithiol ac ataliol o fynd i'r afael â phwysau costau byw, rydym o'r farn y dylai amlinellu'r hyn y mae'n ei wneud i helpu i leihau'r ddibyniaeth ar y Gronfa Cymorth Dewisol gan aelwydydd y mae angen sawl taliad argyfwng arnynt.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd i helpu i leihau'r ddibyniaeth ar Daliadau Cymorth mewn Argyfwng gan aelwydydd y mae angen sawl taliad brys arnynt. Dylai hyn gynnwys cyhoeddi dadansoddiad terfynol o'r cymorth a ddarparwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23.

Data

Nodwn y dystiolaeth yn galw am ddata yn ymwneud â mesurau cymorth costau byw megis y Gronfa Cymorth Dewisol. Mae cyhoeddi'r data hwn yn y gorffennol wedi helpu ymchwilwyr a sefydliadau yn y sector i graffu ar effeithiolrwydd rhaglenni. Gallai cyhoeddi ystod ehangach o ddata fod o fudd o ran targedu cymorth a chodi ymwybyddiaeth ymhlith gwahanol grwpiau demograffig. Rydym yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru, gan adeiladu ar y penderfyniad i gyhoeddi data ar y defnydd o'r Gronfa Cymorth Dewisol yn ôl awdurdod lleol, gyhoeddi data wedi'u dadgyfuno yn ôl grŵp demograffig. Dylai hefyd ystyried pa ddata ychwanegol wedi'u dadgyfuno y gall eu cyhoeddi mewn perthynas â'r grantiau prawf modd eraill y mae'n eu cynnig i gefnogi aelwydydd incwm isel.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i wneud y canlynol:

- cyhoeddi data wedi'u dadgyfuno yn ôl grŵp demograffig ar y nifer sy'n defnyddio'r Gronfa Cymorth Dewisol;
- cynnal asesiad o ba ddata ychwanegol wedi'u dadgyfuno y gall eu cyhoeddi ar gyfer grantiau prawf modd eraill y mae'n eu cynnig. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am y gwaith hwn erbyn diwedd mis Medi 2023.

## System fudd-daliadau Cymru

**38.** Mae Sefydliad Bevan a Cyngor ar Bopeth Cymru wedi sôn am yr angen i symleiddio'r broses o wneud cais ar gyfer grantiau prawf modd a weinyddir gan Lywodraeth Cymru (a elwir weithiau 'system fudd-daliadau Cymru').[44] Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gwario tua £400 miliwn ar fudd-

[44] Sefydliad Bevan, Easing the Cost of Living Crisis this Winter

daliadau, grantiau a lwfansau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio system fudd-daliadau Cymru. Mae nifer o sefydliadau datganoledig yn rhan o'r gwaith o weinyddu'r budd-daliadau hyn gan gynnwys awdurdodau lleol, y GIG a Llywodraeth Cymru ei hun. Mae gan bob un ei phroses ei hun ar gyfer gwneud cais, a set o feini prawf cymhwysedd mewn system a all fod yn ddryslyd i'r rhai sy'n gwneud cais, ac mae hyn yn debygol o effeithio ar y niferoedd sy'n manteisio arnynt.

**39.** Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wrth y Pwyllgor Cyllid yn Ionawr 2023 fod y Llywodraeth wedi ymrwymo i gael un pwynt cyswllt i bobl gael mynediad at system fudd-daliadau Cymru, a bod gwaith ar y gweill gan y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i ddod o hyd i atebion. Ychwanegodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ei bod wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Siarter Budd-daliadau Cymru a bod set o egwyddorion drafft i fod yn sail ar gyfer darparu system fudd-daliadau gydlynol a thosturiol yng Nghymru wedi'u cytuno. Dywedodd y Gweinidog:

> *"This is about how we deliver our benefits, not just technically, but in the spirit of social security. It's going to be a more joined-up approach, a simplified system […] this draft charter will show a vision of a much fairer and more equitable Welsh benefits system."*[45]

**40.** Dywedodd swyddog fod Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau gyda Llywodraeth yr Alban am eu siarter budd-daliadau[46] a'u bod yn ceisio datblygu fframwaith tebyg ar gyfer gwerthuso.[47]

**41.** Yn aml, nid oedd cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws yn gwahaniaethu rhwng cynlluniau cymorth Llywodraeth Cymru a rhai y DU ac yn aml roedd dryswch ymhlith y cyfranogwyr ynghylch enw, proses ymgeisio a meini prawf cymhwysedd gwahanol fudd-daliadau.[48] Roeddent hefyd yn tynnu sylw at risgiau allgáu digidol i rai cartrefi ac yn galw am i ragor o wybodaeth gael ei rhoi mewn lleoliadau pob dydd fel meddygfeydd ac ar drafnidiaeth gyhoeddus.

**42.** Tra bod Ymddiriedolaeth Trussell yn galw am un pwynt mynediad at fudd-daliadau Cymru, ac am cysoni meini prawf mynediad ar gyfer budd-daliadau'r DU a rhai Cymru, dywedodd Karen Davies o Purple Shoots fod llawer o'r problemau yr oedd ei chleientiaid yn eu hwynebu yn deillio o sut

[45] Cofnod y Trafodion, paragraff 121 – 27 Chwefror 2023
[46] Social Security Scotland, Our Charter
[47] Cofnod y Trafodion, paragraff 125 – 27 Chwefror 2023
[48] Crynodeb o drafodaethau'r grwpiau ffocws

mae budd-daliadau yn cael eu gweinyddu ar hyn o bryd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac roedd hi'n gefnogol o waith Llywodraeth Cymru i ymchwilio i'r mater.[49]

**43.** Roedd StepChange, Undebau Credyd Cymru, a Purple Shoots i gyd yn gefnogol o ymdrechion i wella trefniadau pasbortio ar gyfer hawliau budd-daliadau.[50]

## Astudiaeth ddichonoldeb Policy in Practice

**44.** Comisiynodd Sefydliad Bevan arbenigwyr annibynnol, Policy in Practice, i gynnal astudiaeth ddichonoldeb i archwilio'r materion hyn yn fanylach. Dyma ganfyddiadau eu hadroddiad a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023:

- gellid defnyddio data a gedwir eisoes gan sefydliadau sy'n gweinyddu budd-daliadau Cymru i nodi cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau eraill yng Nghymru; er bod arferion da yn bodoli, mae dehongliadau cyfreithiol gwahanol o reolau diogelu data yn rhwystr rhag mabwysiadu dull cyffredin;
- byddai meini prawf cymhwysedd symlach yn gwella'r broses o nodi cymhwysedd ac o dargedu pobl er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau Cymru;
- byddai creu proses ymgeisio ddigidol gyffredin sy'n cwmpasu'r gofynion data ar gyfer holl fudd-daliadau Cymru yn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau ac yn helpu sefydliadau cymorth i roi gwybodaeth am y broses, ymhlith manteision eraill.[51]

**45.** Mae adroddiad Policy in Practice yn gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru ar y camau ymarferol i sefydlu system fudd-daliadau fwy cydlynol a chynhwysfawr ar gyfer Cymru. Mae Sefydliad Bevan yn ei Ragair i'r adroddiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud gwell defnydd o ddata presennol i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar grantiau a lwfansau yn y tymor byr ac i greu grŵp gweithredu i fwrw ymlaen ag argymhellion eraill ar gyfer y tymor hwy.

[49] Cofnod y Trafodion, paragraffau 243-244 – 13 Chwefror 2023
[50] Cofnod y Trafodion, paragraff 119 – 30 Ionawr; paragraffau 225, 226 – 13 Chwefror 2023
[51] Policy in Practice, A common approach to Welsh benefits Feasibility study – Ebrill 2023

## Ein barn ni

Mae consensws cyffredinol y byddai 'system fudd-daliadau Cymru' fel y'i gelwir yn elwa o fwy o integreiddio a chydlynu. Mae'r system bresennol yn dameidiog, yn aneffeithlon, ac yn debygol o fod yn gadael rhai teuluoedd heb y cymorth y mae ganddynt hawl iddo. Gallai mesurau i wella integreiddio liniaru tlodi, hybu'r economi ac arbed arian o ran costau gweinyddol. Cawsom ein calonogi gan gamau'r Gweinidog hyd yma i fwrw ymlaen â gwaith yn y maes hwn. Mae datblygu egwyddorion drafft i danategu Siarter Budd-daliadau Cymru yn arbennig yn garreg filltir bwysig.

Nawr yw'r amser i symud y tu hwnt i gytundeb mewn egwyddor i gamau gweithredu pendant. Mae'r argyfwng costau byw yn gwneud hyn yn bwysicach fyth. Mae'r adroddiad Policy in Practice a gomisiynwyd gan Sefydliad Bevan yn gwneud cyfraniad pwysig drwy ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni yn y maes hwn. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i weithredu'n gyflym gyda phartneriaid i ystyried yr adroddiad, gyda'r bwriad o roi ei ganfyddiadau ar waith, yn enwedig yr hyn y mae'r adroddiad yn nodi y gellid ei gyflawni'n gyflym. O ystyried yr amrywiadau sylweddol ymhlith gwahanol awdurdodau lleol a rhai cyrff cyhoeddus, rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth. Dylai hyn gynnwys ei gwneud yn ofynnol i weithredu dull Cymru gyfan a chyson o basbortio aelwydydd sy'n cael un o fudd-daliadau Cymru i fudd-daliadau eraill y maent yn gymwys i'w cael.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru droi ei gweledigaeth ar gyfer system fudd-daliadau Cymru yn realiti a mandadu dull cyson, Cymru gyfan o basbortio aelwydydd sy'n cael un o fudd-daliadau Cymru i fudd-daliadau eraill y maent yn gymwys i'w cael. Gan weithio gydag awdurdodau lleol, y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, ac eraill, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith yn y maes hwn erbyn diwedd mis Medi 2023, ac anfon gwybodaeth reolaidd yn ei gylch ar ôl hynny.

# 3. Prisiau bwyd a thanwydd cynyddol

'Rhoi'r gwres ymlaen neu fwyta?' yw'r cwestiwn y mae llawer gormod o aelwydydd yn ei wynebu. Mae angen gweithredu ar frys i leihau ansicrwydd bwyd a gwella effeithlonrwydd ynni yn y tymor hir.

## Prisiau bwyd cynyddol

**46.** Elfen allweddol o'r pwysau chwyddiannol a wynebir gan aelwydydd yw'r cynnydd ym mhrisiau bwyd. Roedd chwyddiant prisiau bwyd ar ei uchaf ers 45 mlynedd ym mis Mawrth 2023, gyda phrisiau'n codi 19.2 y cant o'i gymharu â blwyddyn ynghynt.[52]

**47.** Roedd ffigurau a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaeth Trussell yn dangos bod banciau bwyd yng Nghymru wedi dosbarthu 77,000 o barseli bwyd i deuluoedd mewn argyfwng yng Nghymru rhwng Ebrill a Medi 2022. Roedd hyn yn gynnydd o 38 y cant yn nifer y parseli a ddosbarthwyd o gymharu â'r un cyfnod yn 2021-22, a chynnydd o 96 y cant ers 2017-18.[53] Dywedodd Susan Selby-Lloyd mai'r prif reswm dros ddibynnu ar gymorth bwyd mewn argyfwng oedd diffygion yn y system nawdd cymdeithasol, a dywedodd wrthym mai dyma'r prif ffactor sy'n gwneud i bobl ddefnyddio banciau bwyd.[54]

**48.** Dadleuodd Ymddiriedolaeth Trussell nad banciau bwyd yw'r ateb ar gyfer y tymor hwy, a galwodd ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun i leihau a diddymu'r angen am gymorth bwyd mewn argyfwng. Yn yr un modd, dywedodd Fareshare Cymru fod caledi a thlodi'n cael eu datrys drwy sicrhau bod gan bawb fynediad at incwm digonol a sefydlog, nid drwy gymorth bwyd, a dadleuodd fod angen sylfeini strwythurol ar gyfer newid i gyflawni hyn.[55] Mae mwy o dystiolaeth i egluro'r pwyntiau hyn i'w gweld yn Ffigur 2: effaith y cynnydd mewn costau byw ar wariant cartrefi a'r defnydd o fanciau bwyd.

**49.** Mae Well-Fed, menter gymdeithasol yn Sir y Fflint, yn gweithredu model storfa fwyd, sy'n ddewis amgen yn lle banciau bwyd. Mae hyn yn cynnwys darparu cynhwysion bwyd am ddim i gartrefi mewn angen ar gyfer prydau bwyd am bedair wythnos, cyn codi tâl yn raddol am fwyd, am bris gostyngol.

[52] Office for National Statistics, Cost of living insights: Food – 24 Ebrill 2023
[53] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ymddiriedolaeth Trussell
[54] Cofnod y Trafodion, paragraff 18 – 27 Chwefror 2023
[55] Tystiolaeth ysgrifenedig, Fareshare Cymru

Maent hefyd yn darparu hyfforddiant coginio ac yn cynnal siopau symudol fel y gall ardaloedd gwledig a difreintiedig gael bwyd ffres, maethlon am brisiau is.

**50.** Mae Well-Fed o'r farn y dylid newid dull er mwyn symud pobl i ffwrdd o ddibynnu'n ormodol ar elusen er mwyn iddynt gyfrannu at eu lles eu hunain. Gwnaethant ddadlau nad oes safonau bwyd yn cael eu cymhwyso i gymorth bwyd pan mae pobl mewn argyfwng, gan ychwanegu:

> *"Charging affordably for meals/food, protects health and promotes dignity. In addition, we must arrange a food aid response predicated on feeding everyone well – this can be done."*[56]

**51.** Wrth grynhoi'r meddylfryd y tu ôl i'r dull Well-Fed, dywedodd Robbie Davison fod pobl sy'n bwyta'n dda yn ymdopi'n dda, ac mai'r gwahaniaeth mawr yn hyn yw rhoi dewis i bobl, caniatáu i bobl fwyta mewn ffordd arferol fel y byddent pe bai ganddynt arian yn y lle cyntaf.[57]

**52.** Galwodd Jen Griffiths o Gyngor Sir y Fflint am hyblygrwydd mewn cyllid grant i weithredu yn erbyn tlodi bwyd, dywedodd wrthym: Dywedodd wrthym:

> *"Sometimes, the grant conditions are so tight that we can't necessarily apply it. So, I think maybe what I'm asking for is a broader approach to allow the local areas, whether that be third sector, the local authority, charitable organisations, to be able to use that money in a way that fits their community, because not all of the communities are the same."*[58]

**53.** Dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wrthym fod £5 miliwn wedi'i ddyrannu i fynd i'r afael â thlodi bwyd ond bod y cyllid hwn wedi'i rannu'n ddwy ran: cymorth mewn argyfwng (drwy fanciau bwyd yn bennaf) a mentrau partneriaeth bwyd lleol.[59] Tynnodd sylw at y fenter Bocs Bwyd Mawr fel enghraifft o bartneriaeth bwyd lleol a gefnogir gan arian y llywodraeth.

---

[56] Tystiolaeth Ysgrifenedig, Well-Fed
[57] Cofnod y Trafodion, paragraff 85 – 13 Chwefror 2023
[58] Cofnod y Trafodion, paragraff 46 – 13 Chwefror 2023
[59] Cofnod y Trafodion, paragraff 138 – 27 Chwefror 2023

# Tlodi bwyd

## Effaith y cynnydd mewn costau byw ar wariant cartrefi a’r defnydd o fanciau bwyd

### COSTAU BWYD

Mae chwarter aelwydydd (24%) **yn cwtogi ar fwyd neu’n hepgor prydau bwyd**

*- Bevan Foundation*


Mae plant mewn 21% **o gartrefi yn cwtogi ar fwyd neu wedi hepgor prydau bwyd**

*- Bevan Foundation*

### DEFNYDD BANC BWYD

Yn 2022-23, dosbarthwyd **185,320 o barseli bwyd** yng Nghymru, y nifer uchaf ar gofnod

*- Trussell Trust*




Rhwng 2021-22 a 2022-23, bu cynnydd **41 y cant** yn nifer y parseli bwyd brys a ddosbarthwyd yng Nghymru, mewn cymhariaeth â **37 y cant** yn Lloegr, **30 y cant** yn yr Alban a **29 y cant** yng Ngogledd Iwerddon.

*- Trussell Trust*

### Ein barn ni

Mae'r cwestiwn o ran a ddylid troi'r gwes ymlaen neu fwyta yn dangos pa mor ddifrifol yw'r argyfwng costau byw sy'n ein hwynebu yng Nghymru. Mae elusennau a banciau bwyd yn ymateb yn rhagorol i gynnydd sylweddol yn y galw. Mae elusennau banciau bwyd yn cydnabod nad yw banciau bwyd yn ateb cynaliadwy neu hirdymor i'r her o ran tlodi bwyd. Cyhyd â bod incwm aelwydydd yn methu â thalu costau bwydydd, mae banciau bwyd yn debygol o barhau i chwarae rhan bwysig yn yr ymateb i'r argyfwng. Fodd bynnag, yn y tymor hir, rydym am weld ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi bwyd yn cael eu rhoi ar sylfaen fwy cynaliadwy. Rydym o'r farn bod gwaith mentrau cymdeithasol fel Well-Fed yn cynnig gweledigaeth o sut gallai dull mwy cynaliadwy edrych - bod pobl sy'n bwyta'n dda yn ymdopi'n dda.

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl o ran **cefnogi'r newid i ddull mwy cynaliadwy ac ataliol o fynd i'r afael â thlodi bwyd.** Mae hyn yn cynnwys mapio'r gefnogaeth ar gyfer mynd i'r afael â thlodi bwyd ym mhob ardal awdurdod lleol a nodi'r enghreifftiau o arferion gorau sy'n cefnogi nodau ehangach tebyg i Well-Fed a menter Bocs Bwyd Mawr. Yna gellid defnyddio'r ymarfer mapio hwn i dargedu cymorth yn y dyfodol, gyda'r nod o ddatblygu darlun mwy cyson ledled Cymru.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy cynaliadwy ac ataliol o fynd i'r afael â thlodi bwyd drwy gefnogi mentrau cymdeithasol sy'n gweithredu i gyflawni nodau ehangach megis gwella sgiliau coginio mewn cymunedau lleol a darparu prydau iach. Er mwyn gwneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru fapio'r ddarpariaeth bresennol o gymorth ar gyfer mynd i'r afael â thlodi bwyd yn ôl y math o gefnogaeth ym mhob ardal awdurdod lleol, gyda'r bwriad o ddatblygu strategaeth fwy cynaliadwy ar gyfer mynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd ledled Cymru. Dylid cwblhau'r ymarfer mapio cychwynnol erbyn diwedd 2023 a'i rannu â'r Pwyllgor hwn.

## Prisiau tanwydd ac ynni cynyddol

**54.** Mae cynnydd digynsail yng nghost ynni a thanwydd wedi bod yn sbardun allweddol i chwyddiant. Mae ffigurau o Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin yn dangos bod prisiau nwy domestig wedi cynyddu 129 y cant a bod prisiau trydan domestig wedi cynyddu 67 y cant rhwng Chwefror 2022 a Chwefror 2023.[60] Er gwaethaf ymyriadau ar ffurf y Warant Pris Ynni gan Lywodraeth y DU, a Chynllun

[60] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Rising cost of living in the UK – 27 Mawrth 2023

Cymorth Tanwydd Cymru gan Lywodraeth Cymru – ymhlith eraill – mae nifer fawr o aelwydydd yn cael trafferth gyda chost ynni.

**55.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym, er bod natur gyffredinol cefnogaeth Llywodraeth y DU gyda chost ynni "wedi caniatáu i'r ymyriadau gael eu cyflwyno ar raddfa fawr ac yn gyflym, nid yw'r cymorth o reidrwydd wedi targedu'r aelwydydd sydd â'r angen mwyaf ac nid yw'n rhoi cymorth i aelwydydd sy'n defnyddio tanwyddau eraill."[61]

**56.** Tynnodd StepChange sylw at yr angen parhaus am gymorth ychwanegol gyda biliau ynni ar gyfer yr aelwydydd sydd fwyaf agored i niwed.[62]

**57.** Mynegodd Luke Young o Cyngor ar Bopeth Cymru bryderon ynghylch dod â Chynllun Cymorth Tanwydd Cymru i ben. Nododd y byddai'r angen yn pahrau er i'r cynllun ddod i ben, yn enwedig ar adeg pan o bwysau cynyddol ar aelwydydd.[63] Roedd dangosfwrdd Cyngor ar Bopeth Cymru yn dangos, er i'r Cynllun gyfrannu at helpu i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn costau byw yn ystod gaeaf 2022-23, bod disgwyl i'r bwlch yng nghyllidebau aelwydydd gynyddu o fis Ebrill 2023 ymlaen.[64]

**58.** Dangosodd ffigurau a ddarparwyd gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fod dros 307,000 o aelwydydd wedi cael cymorth gyda thaliad o £200 tuag at eu costau tanwydd yn ystod 2022-23.[65] Fodd bynnag, cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y byddai'r cynllun yn dod i ben yn 2023-24 a dywedodd wrth y Pwyllgor Cyllid fod ei gost o £90 miliwn yn gyfystyr â buddsoddiad mawr iawn, ac nad oedd yn rhywbeth y gellid fforddio ei wneud y flwyddyn nesaf.[66]

**59.** Dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wrthym fod £1 miliwn wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol ar gyfer darparu Canolfannau Clyd y gaeaf hwn.[67] Disgrifiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y fenter Canolfannau Clyd fel un sy'n cynnig "cymorth amhrisiadwy yn y gymuned lle gall pobl fynd i fan cynnes, cael diod boeth a phryd bwyd poeth yn aml, yn ogystal â chael cyngor a gwybodaeth ynghyd â gweithgareddau cyfoethogi". Gwnaethant ychwanegu bod yr effaith gadarnhaol ar roi mynediad at gymorth ac o ran lleihau lefelau o ynysu cymdeithasol yn golygu y byddai rhai cynghorau yn

[61] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[62] Tystiolaeth ysgrifenedig, StepChange
[63] Cofnod y Trafodion, paragraffau 64 a 65 – 30 Ionawr 2023
[64] Cyngor ar Bopeth Cymru/Flourish, Rise in COL v support – 16 Rhagfyr 2022
[65] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[66] Cofnod y Trafodion, paragraff 50 – 14 Rhagfyr 2023
[67] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

ystyried y model mewn cynlluniau ar gyfer y dyfodol ar gyfer gwasanaethau cymunedol a rhai sy'n seiliedig ar leoedd.[68]

**60.** Nododd Jen Griffiths fod Cyngor Sir y Fflint wedi newid ei holl dai gwarchod yn ganolfannau clyd i bobl hŷn.[69]

## Effeithlonrwydd ynni a'r Rhaglen Cartrefi Clyd

**61.** Mynegodd Sefydliad Bevan a Cyngor ar Bopeth Cymru bryderon ynghylch dyfodol cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni.[70]

**62.** Dywedodd Luke Young, i helpu pobl gyda'u biliau ynni ar ôl i Gynllun Cymorth Tanwydd Cymru ddod i ben, bod yn rhaid lleihau costau ynni i bobl, a bod effeithlonrwydd ynni yn un ffordd o wneud hynny.[71]

**63.** Yn ei gyflwyniad i'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2023-24, galwodd Sefydliad Bevan ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynlluniau ar gyfer Rhaglen Cartrefi Clyd newydd gyda chynnydd sylweddol yn y buddsoddiad, ffocws ar fesurau inswleiddio, meini prawf cymhwysedd ehangach, a threfniadau cryfach ar gyfer rheoli'r rhaglen.[72] Mynegodd Dr Steffan Evans bryderon am oedi a dywedodd wrthym y byddai angen i'r Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf ddysgu gwersi o'r rhaglen bresennol:

> *"roedd adroddiad pwerus iawn Audit Wales am y Warm Homes Programme, wnaeth ganfod pethau elfennol doedd ddim yn gweithio yn y cynllun yna. Dŷn ni'n dal ddim rili wedi gweld newid eto. Diwedd mis Mawrth blwyddyn ddiwethaf, rwy'n cofio llenwi mewn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynllun newydd Warm Homes Llywodraeth Cymru. Mae hi nawr yn ddiwedd mis Ionawr, blwyddyn yn ddiweddarach, a dŷn ni'n dal ddim, actually, wedi clywed ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad yna, heb sôn am beth yw'r cynllun newydd."*[73]

---

[68] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[69] Cofnod y Trafodion, paragraff 121 – 13 Chwefror 2023
[70] Cofnod y Trafodion, paragraff 128 – 30 Ionawr 2023; tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor ar Bopeth Cymru
[71] Cofnod y Trafodion, paragraff 65 – 30 Ionawr 2023
[72] Tystiolaeth ysgrifenedig at y Pwyllgor Cyllid gan Sefydliad Bevan – Rhagfyr 2022
[73] Cofnod y Trafodion, paragraff 128 – 30 Ionawr 2023

**64.** At hynny, awgrymodd Luke Young y gellid herio Llywodraeth Cymru ymhellach ar sut y mae'n mynd i wneud i'w thai cymdeithasol gyrraedd lefel effeithlonrwydd ynni A o fewn y gyllideb bresennol. [74]

**65.** Yn y Gyllideb ar gyfer 2023-24 mae'r cyllid refeniw ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Clyd yn parhau'n sefydlog ar £4.37 miliwn, gyda chyllid cyfalaf yn cynyddu £5 miliwn i £35 miliwn.[75]

**66.** Ar 26 Ebrill 2023 ysgrifennodd Llywodraeth Cymru atom i gadarnhau oedi i'r Rhaglen Cartrefi Clyd newydd ac estyniad o flwyddyn i elfen cynllun Nyth o'r Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol tan fis Mawrth 2024. Eglurodd y Gweinidog Newid Hinsawdd i ni ei bod yn bwriadu "caffael cynllun newydd, sy'n cael ei arwain gan y galw sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a thlodi tanwydd cyn diwedd y flwyddyn galendr."[76]

## Ein barn ni

### Effaith prisiau ynni cynyddol

Mae'n ymddangos y bydd ansicrwydd ac ansefydlogrwydd yn parhau ym marchnadoedd ynni'r byd, yn enwedig o ran pris nwy, yn y dyfodol hyd y gellir ei ragweld. Mae ymyrraeth sylweddol gan y Llywodraeth, yn enwedig ar ffurf y Warant Pris Ynni, wedi llwyddo i leddfu effeithiau gwaethaf y cynnydd mewn prisiau ynni sy'n parhau i ddilyn y pris diweddaraf ar gyfer nwy. Fodd bynnag, o dan Warant, mae'r bil nwy a thrydan cyfartalog yn parhau i fod 27 y cant yn uwch na'r cap ar brisiau yn haf 2022 a 96 y cant yn uwch na'r cap ar brisiau gaeaf 2021-22.[77]

Daeth y cymorth ychwanegol a ddarparwyd drwy'r Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf gwerth £90 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar adeg dyngedfennol i lawer o aelwydydd ac rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd inni ynghylch dod â'r cymorth hwn i ben yn 2023-24.

Rhoddodd y rhaglen Canolfannau Clyd rywfaint o seibiant i bobl sy'n agored i niwed y gaeaf hwn, er ein bod yn nodi nad yw cyllid ar gyfer y gaeaf nesaf wedi'i sicrhau eto. Rydym yn canmol y fenter yn Sir y Fflint i droi ei ystâd o lety gwarchod yn Ganolfannau Clyd, a chredwn y gallai awdurdodau lleol eraill efelychu hyn.

[74] Cofnod y Trafodion, paragraff 143 – 30 Ionawr 2023
[75] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Derfynol 2023-24
[76] Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch y Rhaglen Cartrefi Clyd
[77] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Prisiau ynni domestig – 13 Mawrth 2023

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo'r dull a fabwysiadwyd yn Sir y Fflint, o droi llety gwarchod yn Ganolfannau Clyd, ymhlith awdurdodau lleol eraill drwy ymgysylltu â'r arweinwyr lleol. Dylid bwrw ati mewn da bryd cyn gaeaf 2023-24.

Disodli'r Rhaglen Cartrefi Clyd

Gwnaethom adrodd ar ddiffygion y Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol ym mis Mai 2022.[78] Yn unol â'n barn y dylai Llywodraeth Cymru newid ei phwyslais i flaenoriaethu mwy o wariant ataliol i fynd i'r afael â chostau byw, rydym o'r farn bod **mesurau i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yn hollbwysig i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.** Mae angen cynllun arnom ar frys i gael pobl allan o Ganolfannau Clyd ac i mewn i gartrefi cynnes drwy insiwleiddio ac ôl-osod tai ar draws pob math o ddaliadaeth.

O ystyried y materion a godwyd yn ein hymchwiliad Cartrefi Clyd a'r cynnydd syfrdanol y mae llawer o aelwydydd wedi'i weld mewn biliau ynni dros y misoedd diwethaf, rydym yn hynod siomedig a rhwystredig ynghylch maint yr oedi i'r Rhaglen Cartrefi Clyd newydd a bod ymateb y Llywodraeth i'r materion hyn wedi dangos diffyg brys. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pam mae'r Rhaglen Cartrefi Clyd newydd yn cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd, a nodi goblygiadau hynny i'w dull ehangach o fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

**Argymhelliad 8.** Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati ar frys i egluro nifer o faterion sy'n ymwneud â disodli'r Rhaglen Cartrefi Clyd gan gynnwys:

- pam mae'r gwaith o ddatblygu Rhaglen Cartrefi Clyd newydd yn destun oedi;
- a yw'n bwriadu gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r raglen Nyth bresennol gan ei bod bellach wedi'i hymestyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024;
- a fydd y rhaglen newydd yn cynnwys elfen sy'n seiliedig ar ardaloedd, ac os felly, a fydd hyn yn dechrau ddiwedd y gaeaf.

## Mesuryddion rhagdalu

**67.** Yn 2022 gwelodd Cyngor ar Bopeth Cymru fwy o bobl nad oeddent yn gallu rhoi arian yn eu mesurydd rhagdalu o gymharu ag yn y 10 mlynedd

[78] Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd – Mai 2022

flaenorol gyda'i gilydd.[79] Dywedodd Luke Young wrthym y bydd 7,500 yn fwy o bobl yng Nghymru ar fesuryddion rhagdalu erbyn diwedd gaeaf 2022-23, yn ôl eu gwaith modelu.[80]

**68.** Cafwyd pryderon eang ynghylch yr arfer o orfodi pobl i osod mesuryddion rhagdalu yn dilyn ymchwiliad gan y Times i Nwy Prydain ar ddechrau 2023.[81]

**69.** Mewn ymateb i'r pryderon hyn, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ar 10 Chwefror 2023 fod cyflenwyr ynni wedi cytuno i roi'r gorau i orfodi aelwydydd sy'n agored i niwed i ddefnyddio mesuryddion rhagdalu.[82] Yna cynhaliodd y rheoleiddiwr, Ofgem, adolygiad cyflym a gyhoeddodd adroddiad ar 18 Ebrill 2023.[83] Cyhoeddodd Ofgem y byddai'r cytundeb i beidio gosod mesuryddion rhagdalu yn dod i ben gyda rhai eithriadau, gan gynnwys pobl dros 85 oed a phobl â chyflyrau iechyd penodol. Cadarnhaodd cyflenwyr ynni hefyd y byddent yn cytuno i oruchwyliaeth gryfach gan y rheoleiddiwr a Chod Ymarfer newydd ar fesuryddion rhagdalu anwirfoddol.[84]

**70.** Dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ei bod wedi cyfarfod â chyflenwyr ynni a'r rheoleiddiwr, Ofgem, i godi pryderon ynghylch y ffordd y caiff cwsmeriaid sy'n agored i niwed eu trin. Dywedodd y Gweinidog:

> *"I've had more than one meeting with them. They have professed to want to support their most vulnerable customers, but I think the recent examples of the forced installation of PPMs has just shown that that hasn't stood the test in terms of the assurances I was getting from those who I met in terms of energy providers. [...] I also met the Ofgem board, who came to Cardiff, and expressed my concern about the fact that their powers do not seem to be having an impact, and should those powers be strengthened, and, indeed, how are they going to investigate in particular the most recent examples of forced installation and the warrants that have gone out in terms of installing*

[79] Wales: Citizens Advice Cymru cost of living dashboard 2022 in review
[80] Cofnod y Trafodion, paragraff 132 – 30 Ionawr 2023
[81] The Times, Exposed: How British Gas debt agents break into homes of vulnerable – Chwefror 2023
[82] Llywodraeth EF, Energy companies halt forced installation of pre-payment meters – 10 Chwefror 2023
[83] Ofgem, Energy regulator outlines next steps on forced Prepayment Meter (PPM) installations – 21 Chwefror 2023
[84] Ofgem, All energy suppliers sign up to tougher Ofgem oversight and new Code of Practice on involuntary prepayment installations – 18 Ebrill 2023

*PPMs in vulnerable people's houses. The energy companies have got to be answerable."*[85]

**71.** Dywedodd mwyafrif o'r rhai a gyfrannodd yn ein grwpiau ffocws fod biliau ynni'n anodd eu deall a'u bod yn aml yn cael eu dychryn gan y symiau o arian sy'n ddyledus. Dywedodd sawl cyfranogwr hefyd nad oedd cwmnïau ynni yn barod iawn i helpu pan oeddent yn ceisio cymorth, a bod y rhai sy'n ymdrin â galwadau yn aml heb wybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer cwsmeriaid.[86]

**72.** Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith bod £4 miliwn wedi'i ddyrannu yn 2022-23 i ariannu 49,000 o dalebau i aelwydydd ar fesuryddion rhagdalu fel rhan o Gynllun Talebau Tanwydd Llywodraeth Cymru.[87] Ond ar ddiwedd Ionawr 2023 dim ond 11,000 o dalebau oedd wedi eu cyflwyno yn ôl y Gweinidog.[88]

## Ein barn ni

Mae'n destun pryder i ni bod cwsmeriaid sy'n agored i niwed wedi cael eu gorfodi i gael mesuryddion rhagdalu yn eu cartrefi, yn enwedig yn ystod argyfwng digynsail sy'n effeithio ar bris ynni. Nodwn gasgliadau adolygiad Ofgem a fydd yn caniatáu i'r arfer hwn barhau ym mhob achos ar wahân i'r rhai mwyaf eithafol. Rydym yn croesawu'r cam o gryfhau darpariaethau mewn perthynas â chod ymddygiad, ond rydym yn aros i weld a oes unrhyw sylwedd i'r newidiadau hyn. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei hymateb i adolygiad Ofgem a chynnal asesiad o unrhyw gamau pellach y gallai eu cymryd i gefnogi grwpiau sy'n agored i niwed y mae mesuryddion rhagdalu yn fater sy'n effeithio arnynt, ac adrodd yn ôl i'r Senedd erbyn diwedd mis Medi 2023. Dylai unrhyw gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried gadw mewn golwg y llythyr gan Cyngor ar Bopeth Cymru a nodwyd yn ein cyfarfod ar 24 Ebrill 2023.[89]

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa drafodaethau y mae wedi'u cael ag Ofgem i leisio ei phryderon y byddai ailddechrau'r arfer o orfodi aelwydydd i gael mesuryddion rhagdalu yn dilyn adolygiad Ofgem o fesuryddion rhagdalu yn rhoi amddiffyniad annigonol i aelwydydd sy'n agored i niwed. Dylai hefyd nodi manylion unrhyw gamau pellach y bydd yn eu

[85] Cofnod y Trafodion, paragraff 74 – 27 Chwefror 2023
[86] Crynodeb o drafodaethau'r grwpiau ffocws
[87] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[88] Cofnod y Trafodion, paragraff 98 – 27 Chwefror 2023
[89] Gohebiaeth gan Cyngor ar Bopeth Cymru at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch cwmnïau ynni, 31 Mawrth 2023

cymryd i amddiffyn grwpiau o gwsmeriaid sy'n agored i niwed. Dylai’r Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Senedd am waith yn y maes hwn ac adrodd yn ôl erbyn diwedd mis Medi 2023.

O ran y Cynllun Talebau Tanwydd, rydym yn ailadrodd argymhelliad 6 o’n hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 ac yn galw am i ffigurau terfynol gael eu cyhoeddi ynghylch y nifer sy’n manteisio ar y cynllun.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ffigurau terfynol ynghylch y nifer sy’n manteisio ar ei Chynllun Talebau Tanwydd yn unol ag argymhelliad 6 o adroddiad y Pwyllgor hwn ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 cyn gynted ag y bydd y wybodaeth hon ar gael.

# 4. Dyled a chostau byw cynyddol

Mae dyledion ynni, ôl-ddyledion rhent, a thaliadau treth gyngor hwyr i gyd ar gynnydd. Bydd atal cartrefi incwm is rhag cronni dyledion problemus a drud dim ond i dalu am hanfodion yn her allweddol.

## Dyled

**73.** Dangosodd data gan StepChange mai 'cynnydd **costau byw**' oedd yr wythfed rheswm mwyaf cyffredin am ddyledion, erbyn 2022 hwn oedd yr ail fwyaf cyffredin, ac chyfeiriodd 15 y cant o gleientiaid ato. [90]

**74.** Yn 2022, roedd 29 y cant o gleientiaid StepChange yn wynebu'r hyn a elwir yn 'gyllideb negyddol', lle roedd cost hanfodion yn uwch na'u hincwm. Mae hyn yn codi i 60 y cant o gleientiaid gyda phlant.[91]

**75.** Dywedodd StepChange a Cyngor ar Bopeth Cymru fod achosion unigol yn dod yn llawer mwy cymhleth, gyda mwy o oblygiadau o ran amser ac adnoddau.[92]

### Y Gronfa Gynghori Sengl

**76.** Y dyraniad yn y gyllideb ar gyfer y Gronfa Gynghori Sengl yn 2023-24 oedd £11 miliwn. Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn cael cyllid gan y Gronfa Gynghori Sengl, ond mynegodd Luke Young bryderon fod cyllideb wastad yn mynd i olygu y bydd pwysau anodd iawn ar y gwasanaeth, gan ychwanegu:

> *We don't know the full extent of whether that flat budget will mean jobs going or services being constricted—we're working through that right now—but it is pretty obvious, the same as other bits of Welsh society in the economy, that there's going to be pressure and it will mean that we'll have to do a bit less than we would have wanted to do.*

[90] StepChange, Statistics Yearbook Personal debt in the UK January - December 2022
[91] StepChange, Statistics Yearbook Personal debt in the UK January - December 2022
[92] Tystiolaeth ysgrifenedig, StepChange, Cyngor ar Bopeth Cymru

**77.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym, drwy gynnal cyllid ar gyfer y SAF, ei bod yn hyderus y bydd ei gwasanaethau cyngor a chymorth yn cyrraedd pobl agored i niwed sydd â'r angen mwyaf.[93]

## Ein barn ni

### Gwaith blaenorol ar Ddyled a'r Pandemig

Cyfeiriodd ein hadroddiad blaenorol ynghylch **Dyled a'r pandemig** at y storm economaidd sydd ar y gorwel. Gwnaeth yr adroddiad hwnnw 14 o argymhellion, ac mae nifer ohonynt naill ai wedi'u cyflawni neu wedi'u disodli gan ddatblygiadau polisi diweddarach. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am statws pob un yn wedi'i chynnwys yn Atodiad D. Mae cwestiynau ynghyd ynghylch cynnydd gydag argymhellion 1, 3, 4, 5, a 7 sy'n ymwneud â chyhoeddi data; hyrwyddo cyngor ar ddyledion; mynd i'r afael â thlodi tanwydd; a choelcerthi dyled. Byddem yn croesawu diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar y rhain.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd mewn perthynas ag argymhellion 1, 3, 4, 5, a 7 o'n hadroddiad yn 2021 ar ddyled a'r pandemig a ddylai gynnwys, lle bo'n berthnasol, unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r argyfwng costau byw. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno erbyn diwedd mis Mehefin 2023.

### Cyngor ar ddyled a'r Gronfa Gynghori Sengl

Mae'r pwysau ar gyllid aelwydydd yn debygol o gynyddu'r galw am gyngor, yn enwedig cyngor ar ddyled yn y tymor byr. Nodwn hefyd, yn ogystal â llwythi achosion yn tyfu, fod cymhlethdod achosion unigol hefyd yn cynyddu.

Mae cyllid ar gyfer y Gronfa Gynghori Sengl yn wastad ar gyfer 2023-24, sy'n debygol o gynyddu'r pwysau ar staff a chael goblygiadau ar gyfer y gwasanaethau hyn. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Cyngor ar Bopeth Cymru a phartneriaid eraill i barhau i adolygu'r sefyllfa hon ac, os oes angen, adolygu'r dyraniad cyllid a wneir os yw'r galw am gyngor yn uwch na'r hyn y gellir ei ddarparu o dan y Gronfa Gynghori Sengl. Mae hyn yn debyg i argymhelliad 3 o'n gwaith ar Gyllideb Ddrafft 2023-24.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Cyngor ar Bopeth Cymru i fonitro lefel y galw am gyngor ar ddyled a chyngor arall o dan y Gronfa Gynghori Sengl ac ymrwymo i adolygu'r dyraniadau cyllid yng Nghyllideb

[93] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

Ddrafft 2023-24 os oes angen. Dylid darllen yr argymhelliad hwn ochr yn ochr ag argymhelliad 3 o'n hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24.

### Dyled sy'n ddyledus i gyrff cyhoeddus

**78.** Tynnodd Chwarae Teg sylw at y twf mewn dyled sy’n ddyledus i gyrff cyhoeddus, yn enwedig ar ffurf ôl-ddyledion treth gyngor.[94]

**79.** Dywedodd Luke Young fod dyled treth gyngor yn cystadlu â dyled ynni i fod y brif broblem i gleientiaid yng Nghymru. Roedd hyn mewn cyferbyniad â data gan Cyngor ar Bopeth yn Lloegr.[95]

**80.** Yn ein gwaith blaenorol gwnaethom amlygu sut roedd beilïaid a gyflogir gan awdurdodau lleol yn defnyddio dulliau gorfodi ymosodol a llawdrwm.[96] Mewn ymateb i’n hargymhelliad, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o’r Protocol Treth Gyngor a chyhoeddwyd y canfyddiadau ym mis Mawrth 2023.[97]

**81.** Mynegodd rhai tystion bryderon bod dulliau gorfodi llawdrwm yn dal i fod yn broblem.[98] Dadleuodd Peter Tutton o StepChange y dylai holl gredydwyr y sector cyhoeddus fod yn ddarostyngedig i set ehangach o egwyddorion statudol o ran rheoli dyled, gan ddyfynnu’r egwyddorion sydd wedi’u cynnwys yn Neddf yr Economi Ddigidol fel un llwybr posibl. Tynnodd sylw hefyd at waith y Bwrdd Ymddygiad Gorfodi a galwodd ar gredydwyr y sector cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, i weithio dim ond gyda beilïaid sy’n cofrestru ac yn dilyn safonau’r Bwrdd Ymddygiad Gorfodi.[99]

**82.** Galwodd Luke Young ar awdurdodau lleol i ddangos mwy o oddefgarwch; i'r rheolau presennol ynghylch taliadau hwyr gael eu dileu; ac i'r Protocol Treth Gyngor gael ei adolygu, ei gryfhau a'i roi ar sylfaen statudol.[100]

**83.** O ran dileu dyledion dadleuodd Sefydliad Bevan a Cyngor ar Bopeth Cymru yn erbyn blaenoriaethu hyn yn y tymor byr, gan bwysleisio yn lle hynny y dylid sicrhau bod gan bobl ddigon o arian i dalu am yr hanfodion ac atal unigolion rhag mynd i galedi pellach.[101]

---

[94] Tystiolaeth ysgrifenedig, Chwarae Teg
[95] Cofnod y Trafodion, paragraff 24 – 30 Ionawr 2023
[96] Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Dyled a’r pandemig – Tachwedd 2021
[97] Llywodraeth Cymru, Deall Effaith Ymyriadau Treth Gyngor yng Nghymru: cyflwyno Protocol Treth Gyngor Cymru – 8 Mawrth 2023
[98] Cofnod y Trafodion, paragraffau 187–192 – 13 Chwefror 2023
[99] Cofnod y Trafodion, paragraffau 36 a 37 – 30 Ionawr 2023
[100] Cofnod y Trafodion, paragraff 29 – 30 Ionawr 2023
[101] Cofnod y Trafodion, paragraffau 44 a 49 – 30 Ionawr 2023

## Ein barn ni

### Dyled y sector cyhoeddus

Mae'n glir bod y caledi y mae llawer o bobl yn ei wynebu ar hyn o bryd yn golygu bod angen i gyrff y sector cyhoeddus ddangos amynedd a dealltwriaeth. Mae'n siomedig clywed tystiolaeth anecdotaidd bod rhai cyrff yn y sector cyhoeddus yn parhau i ddefnyddio beilïaid sy'n defnyddio tactegau gorfodi ymosodol a llawdrwm. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i anfon neges glir at gyrff cyhoeddus datganoledig, er bod ganddynt hawl i ddiogelu eu refeniw, na fydd tactegau gorfodi llawdrwm yn cael eu goddef.

### Protocol Treth Gyngor

Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hadolygiad o'r Protocol Treth Gyngor ond yn nodi â phryder ei chanfyddiadau mai fawr ddim effaith a gafodd y cam o gyflwyno'r Protocol yn 2019 ar arferion casglu a gorfodi cynghorau lleol. Canfu hefyd fod diffyg cysondeb o ran pa mor llym oedd gweithgareddau gorfodi a bod rhwystrau rhag gweithredu'r Protocol yn llawn yn cynnwys diffyg hyfforddiant a chanllawiau a materion yn ymwneud â threfniadaeth fewnol rhai cynghorau. Yng ngoleuni'r saga ddiweddar ynghylch gosod mesuryddion rhagdalu gorfodol, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chynghorau i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn yr adolygiad drwy osod Protocol cryfach ar sail statudol.

**Argymhelliad 13.** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda chynghorau i roi sylw i'r diffygion a nodwyd yn yr adolygiad o'r Protocol Treth Gyngor, ynghyd â phryderon rhanddeiliaid fel y'u hamlygwyd gan y Pwyllgor hwn, fel rhan o'i rhaglen ddiwygio ehangach. Dylai hyn gynnwys rhoi Protocol cryfach ar sail statudol. Dylid bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn gyflym a rhoi diweddariad i'r Senedd cyn diwedd mis Medi 2023.

## Credyd fforddiadwy

**84.** Yn 2021, cyhoeddodd Fair 4 All Finance ei bod yn treialu Cynllun Benthyciadau Di-Log gyda chefnogaeth ariannol gan y Llywodraeth.[102] Cafodd yr elfen o'r peilot a gynhaliwyd yng Nghymru fenthyciad o £1 miliwn gan Lywodraeth Cymru a'r consortiwm Credyd Cymdeithasol (sy'n cynnwys Purple Shoots, Bancio Cymunedol Robert Owen a Plend) oedd yn gyfrifol am ei reoli.

[102] Fair 4 All Finance, Plans announced for new UK wide No Interest Loan Scheme pilot – 6 Medi 2021

**85.** Dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wrthym fod y cynllun peilot yn y cyfnod profi a dysgu ar hyn o bryd, ac y byddai benthyca'n cynyddu yn ystod 2023.[103] Mae atgyfeiriadau yn cael eu gwneud i'r cynllun drwy Plend. Mae'n bosibl y bydd pobl sy'n methu gwiriadau fforddiadwyedd Plend yn addas ar gyfer benthyciadau di-log os gallant fforddio ad-dalu benthyciad gyda'r llog wedi'i ddileu.

**86.** O ran y peilot, rhybuddiodd Karen Davies:

> *"We have just started but only with a limited number of clients, and it is interesting that quite a lot of them are being declined because they still fail on affordability; they're trying to borrow money that they've got no hope of repaying. So, I don't know if it's going to work as a solution, but we're testing it out, really."*[104]

**87.** Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y bydd cefnogaeth barhaus i undebau credyd yng Nghymru, gyda chyllid o £422,000 yn 2023-24. Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y canlynol:

> *"I amlygu pwysigrwydd unedau credyd yng Nghymru, fe wnaeth Gweinidogion yng Nghabinet Llywodraeth Cymru gymryd rhan mewn ymweliad wedi'i gydlynu ar hyd a lled y wlad, gan godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau maent yn eu darparu, sy'n cynnwys benthyca fforddiadwy."*[105]

**88.** Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag undebau credyd ar gynllun benthyciadau newydd arall:

> *"Rydym wedi darparu £1.2m yn 2022-23 i undebau credyd ehangu eu benthyciadau i bobl â hanes credyd gwael, y byddai undeb credyd yn gwrthod benthyciad iddynt fel arall oherwydd y risg o fethu ag ad-dalu, ac a fyddai'n debygol iawn o ddefnyddio darparwyr credyd cost uchel, neu'n waeth, fenthycwyr arian didrwydded. Mae'r cynllun hwn yn cael effaith, ac mae mwy na 1000 o bobl yn benthyca o undeb credyd am y tro cyntaf bellach."*[106]

---

[103] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[104] Cofnod y Trafodion, paragraff 169 – 13 Chwefror 2023
[105] Llywodraeth Cymru, Cyllid gwerth cannoedd o filoedd o bunnoedd i undebau credyd sy'n cynnig achubiaeth– 5 Ionawr 2023
[106] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

**89.** Dywedodd Nicola Field o Undeb Credyd Achubwyr Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi llawer o gefnogaeth i undebau credyd, fodd bynnag, un maes lle gellid gwneud mwy yw codi ymwybyddiaeth o'r gwaith y mae undebau credyd yn ei wneud y tu hwnt i fenthyciadau a chynilion. Tynnodd sylw at y ffaith y gall undebau credyd gymryd budd-daliadau i bobl heb gyfrif banc fel un enghraifft o hyn.[107]

## Ein barn ni

Gwnaethom nodi'n flaenorol bod darparwyr credyd fforddiadwy yn cynnig opsiwn llawer mwy diogel na benthycwyr anghyfreithlon neu'r rhai sy'n cynnig credyd â chyfraddau llog uchel. Mae ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i undebau credyd i'w groesawu. O ystyried y pwysau o ran costau byw y mae aelwydydd yn eu hwynebu, rydym yn cytuno y byddai codi ymwybyddiaeth o'u gwasanaethau, gan gynnwys gwaith ehangach fel darparu gwasanaeth i'r rhai heb gyfrif banc drwy dderbyn budd-daliadau, yn werth chweil.

O ran treialu'r Cynllun Benthyciadau Di-Log, clywsom bryderon ynghylch ei weithrediad a nodwn mai'r bwriad yw bwrw ymlaen â chyflwyno'r cynllun ar raddfa fwy eang ym mis Mehefin 2023. Cyn ei gyflwyno, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n eglur ei nodau a'i huchelgeisiau ar gyfer gweithredu'r cynllun yng Nghymru.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y bydd yn eu cymryd yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24 i godi ymwybyddiaeth o undebau credyd a hyrwyddo credyd fforddiadwy, gan gynnwys y nodau a'r disgwyliadau ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Benthyciadau Di-Log ar raddfa fwy eang. Dylid rhoi'r diweddariad hwn cyn i'r broses o'i gyflwyno ar raddfa fwy eang ddechrau ym mis Mehefin 2023.

[107] Cofnod y Trafodion, paragraff 246 – 13 Chwefror 2023

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| **30 Ionawr 2023** | **Peter Tutton,** StepChange<br>**Luke Young,** Cyngor ar Bopeth Cymru<br>**Steffan Evans,** Sefydliad Bevan |
| **13 Chwefror 2023** | **Sarah Germain,** FareShare<br>**Jen Griffiths,** Cyngor Sir y Fflint<br>**Robbie Davison,** Well-Fed<br>**Nicola Field,** Undebau Credyd Cymru<br>**Karen Davies,** Purple Shoots |
| **27 Chwefror 2023** | **Susan Lloyd-Selby,** Ymddiriedolaeth Trussell<br>**Jane Hutt AS**<br>Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru<br>**Paul Neave**<br>Pennaeth Cyngor Lles Cymdeithasol a Pholisi'r Adran Gwaith a Phensiynau, Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl dystiolaeth ysgrifenedig i'w gweld ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **DCLC 01** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **DCLC 02** | Chwarae Teg |
| **DCLC 03** | Cyngor ar Bopeth Cymru |
| **DCLC 04** | Cymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyfyngedig |
| **DCLC 05** | Ymddiriedolaeth Trussell |
| **DCLC 06** | Well-Fed |
| **DCLC 07** | FareShare Cymru |
| **DCLC 08** | StepChange |

# Atodiad 3: Cefnogaeth gan y Llywodraeth gyda chostau byw

Mae mesurau cymorth costau byw Llywodraeth Cymru ar gyfer aelwydydd wedi cynnwys y canlynol:

- **Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru 2022-23** – roedd hyn yn rhoi £200 i aelwydydd incwm isel tuag at eu biliau tanwydd, a daeth i ben ym mis Chwefror 2023.
- **Cronfa Cymorth Dewisol** – mae'r Gronfa yn rhoi cymorth i bobl sy'n wynebu caledi ariannol sylweddol drwy roi grantiau ar gyfer hanfodion. Mae yna hefyd elfen sy'n cefnogi aelwydydd oddi ar y grid gyda chostau tanwydd cynyddol.
- **Cynllun Talebau Tanwydd** – mae partneriaid yn atgyfeirio aelwydydd am gymorth drwy'r cynllun hwn, sy'n cefnogi aelwydydd ar fesuryddion rhagdalu ac aelwydydd nad ydynt ar y grid.
- Mae cymorth costau byw ehangach ar gael hefyd, fel y cynnydd dros dro i'r Grant Datblygu Disgyblion – grant Mynediad, sy'n talu am hanfodion ysgol.

Mae prif fesurau cymorth Llywodraeth y DU ar gyfer aelwydydd yn cynnwys y canlynol:

- **Gwarant Pris Ynni** – hyd at 30 Mehefin 2023 bydd cap o tua £2,500 y flwyddyn ar filiau ynni aelwydydd arferol. Rhwng Gorffennaf 2023 a 31 Mawrth 2024, bydd y warant yn cael ei hymestyn fel bod bil ynni aelwydydd arferol tua £3,000.
- **Cynllun Cymorth Biliau Ynni** – roedd hyn yn rhoi gostyngiad o £400 nad oes angen ei ad-dalu i aelwydydd cymwys i'w helpu gyda'u biliau ynni dros y gaeaf yn 2022 i 2023.
- **Taliadau Costau Byw** – mae taliadau wedi'u gwneud i aelwydydd incwm isel sydd ar fudd-daliadau penodol, pobl ar fudd-daliadau anabledd penodol a phensiynwyr (mae rhai aelwydydd yn gymwys i gael mwy nag un taliad). Bydd y taliadau hyn yn parhau yn 2023-24.
- **Taliad Tanwydd Amgen** – bydd hyn yn rhoi cymorth o £200 i aelwydydd sy'n defnyddio tanwyddau amgen, fel olew gwresogi, nwy petrolewm hylifedig (LPG), glo neu fiomas, i wresogi eu cartrefi.

Mae rhai o'r cynlluniau a'r mesurau uchod wedi dod i ben erbyn hyn. Os ydych chi, neu rywun rydych yn ei adnabod, yn cael trafferth gyda chostau byw cynyddol, ewch i dudalen we **costau byw - cymorth a gwybodaeth** gan Ymchwil y Senedd.Cynnydd gydag argymhellion blaenorol

# Atodiad 4: Cynnydd gydag argymhellion blaenorol

Gwnaed yr argymhellion a ganlyn yn adroddiad y Pwyllgor **ar Ddyled a'r Pandemig**. Rhoddir sylwebaeth gryno ar y cynnydd o ran gweithredu, ac mae'r argymhellion y mae angen rhagor o wybodaeth yn eu cylch wedi eu lliwio. **I ddarllen yr adroddiad a'r ymateb ewch i wefan y Pwyllgor**.

| Argymhelliad | Ymateb | Statws |
| --- | --- | --- |
| 1. Dylai uned data cydraddoldeb Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau yn y sector i gasglu a chyhoeddi data blynyddol ar ddyled yng Nghymru gan ddechrau yn y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2022-23, a dadansoddi'r data hynny yn ôl nodweddion gwarchodedig | Derbyn mewn egwyddor | Wedi'u nodi yn y ddogfen blaenoriaethau unedau data cydraddoldeb 2022-27 ond yn aros am fanylion pellach. Gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf. |
| 2. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil arbenigol i'r berthynas rhwng dibyniaeth a dyled ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynglŷn â'r cynnydd. Dylai'r ymchwil hon gynnwys dibyniaeth ar ei holl ffurfiau gan gynnwys gamblo, alcohol a dibyniaeth ar sylweddau eraill, a dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a'r amserlenni ar gyfer cwblhau a chyhoeddi cyn diwedd mis Mawrth 2022. | Derbyn | Cwblhawyd ymchwil cychwynnol ym mis Mawrth 2022; angen arweiniad y Pwyllgor ar y camau nesaf |
| 3. Yn ei hymateb, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa fesurau ychwanegol y bydd yn eu rhoi ar waith i hyrwyddo gwasanaethau cyngor ar ddyled i grwpiau sy'n agored i niwed ac sydd mewn mwy o berygl o fynd i ddyled, er mwyn gallu gwneud dewisiadau gwybodus am yr opsiynau sydd ar gael iddynt. | Derbyn | Angen edrych eto arno yn wyneb pwysau costau byw – gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf |

| Argymhelliad | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| 4. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynlluniau diwygiedig o fewn y tri mis nesaf i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, er mwyn sicrhau eu bod ar waith ymhell cyn y cynnydd nesaf i'r cap ar brisiau ynni a fydd yn dod i rym o fis Ebrill 2022. | Derbyn mewn egwyddor | Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Tanwydd ym mis Mawrth 2021 ac mae ymateb y Llywodraeth yn nodi ei bod yn bwriadu ei adolygu bob dwy flynedd, sy'n golygu bod adolygiad yn hwyr – gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf |
| 5. Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurder yn ei Chyllideb Ddrafft ynglŷn â sut y bydd yn dyrannu digon o arian hyd at 2024-25 i gyflymu cynlluniau i sicrhau bod pob cartref cymdeithasol yn cyrraedd Sgôr Effeithlonrwydd Ynni A i liniaru'r cynnydd mewn tlodi tanwydd o ganlyniad i gostau ynni sy'n cynyddu. | Derbyn | Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Safon Ansawdd Tai Cymru newydd ym mis Mai-Awst 2022 ond ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau pellach, gan gynnwys ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad. Gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf |
| 6. Dylai adolygiad Llywodraeth Cymru o Brotocol Treth Gyngor Cymru asesu a ddylid cryfhau'r Protocol, gan gynnwys a ddylid ei roi ar sail statudol. Dylid bwrw ymlaen â'r adolygiad hwn fel mater o frys a'i gwblhau erbyn mis Mehefin 2022 fan bellaf. | Derbyn | Cyhoeddwyd canfyddiadau'r adolygiad ym mis Mawrth 2023. |
| 7. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dichonoldeb cyflwyno 'coelcerth dyledion' mewn perthynas ag agweddau ar ddyled sector cyhoeddus, gan ddefnyddio tystiolaeth o Gymru a thu hwnt, a dylai ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'i gasgliadau erbyn diwedd Mehefin 2022. | Derbyn | Wedi'i gwblhau'n rhannol – mae gwaith ymchwil gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru wedi'i rannu â'r Pwyllgor ym mis Mehefin gyda diweddariad pellach yn cael ei ym mis Tachwedd 2022. Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at yr |

| Argymhelliad | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| | | adolygiad ansolfedd gan Wasanaeth Ansolfedd Llywodraeth y DU sydd i fod i gyflwyno adroddiad yn 2023. Gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf. |
| 8. Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn pa gamau pellach y mae wedi'u cymryd i wella ymwybyddiaeth o gyfraith tai Cymru ymhlith swyddogion rheng flaen yr heddlu. | Derbyn | Wedi'i gwblhau |
| 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau ei bod yn defnyddio'r ysgogiadau deddfwriaethol neu bolisi sydd ar gael iddi fel nad yw tenantiaid ar draws pob deiliadaeth yn colli eu cartrefi oherwydd dyled a gronnwyd o ganlyniad i'r pandemig. | Derbyn | Wedi'i gwblhau |
| 10. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod y cyfnod hysbysu o chwe mis yn parhau i fod mewn grym hyd nes y daw Deddf Rhentu Cartrefi 2016 i rym. | Derbyn mewn egwyddor | Daeth darpariaethau yn Neddf Rhentu Cartrefi 2016 sy'n ymestyn y cyfnod rhybudd ar gyfer troi allan heb fai i 6 mis i rym ym mis Rhagfyr 2022 er gwaethaf llawer o oedi. |
| 11. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o ymestyn y cynllun Grant Caledi i Denantiaid i gynnwys tenantiaid incwm isel mewn tai cymdeithasol nad ydynt yn gymwys i gael Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai. | Derbyn | Wedi'i gwblhau Cafodd cymhwysedd ar gyfer y Grant Caledi i Denantiaid ei ymestyn ym mis Ionawr 2022. |
| 12. Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn sut y mae'n bwriadu hyrwyddo ffynonellau credyd fforddiadwy ymhlith y rhai sydd mewn mwy o berygl o ddyled dros y chwe mis nesaf. | Derbyn | Wedi'i ddisodli gan argymhelliad yn yr adroddiad hwn. |

| Argymhelliad | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| 13. Dylai Llywodraeth Cymru wneud yr hyblygrwydd a gyflwynwyd i'r Gronfa Cymorth Dewisol o ganlyniad i'r pandemig yn nodwedd barhaol o'r gronfa. | Derbyn mewn egwyddor | Gweler y nodiadau ar gyfer Argymhelliad 14 isod. |
| 14. Er mwyn llywio'r gwaith paratoi ar gyfer contract newydd y Gronfa Cymorth Dewisol o fis Ebrill 2023, dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r Gronfa ar ei ffurf bresennol i gynnwys:<br>adolygiad o feini prawf cymhwystra;<br>opsiynau ar gyfer symleiddio'r broses o wneud cais; ac<br>adolygiad o'r canllawiau sy'n gysylltiedig â cheisiadau er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon hawdd eu deall a'u bod wedi'u hysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg clir. | Derbyn | Wedi'i gwblhau a'i ddisodli gan newidiadau polisi diweddarach. Cafodd trefniadau newydd ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol, gan gynnwys byrhau'r cyfnodau rhwng ceisiadau (yn unol ag argymhelliad 14) a phrosesau symlach, eu cadarnhau gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2023. |